




TAG

Arholiadau 2009 ymlaen

Dyfarniad UG Cyntaf: Haf 2009

Dyfarniad Safon Uwch Cyntaf: Haf 2010

Cerddoriaeth



Cynnwys

TAG Uwch Gyfrannol Cerddoriaeth CBAC TAG Uwch Cerddoriaeth CBAC

Dyfarniad UG cyntaf - Haf 2009
Dyfarniad Safon Uwch cyntaf - Haf 2010



	Tudalen
Codau Cofrestru a Darpariaeth yr Unedau	2
Crynodeb o'r Asesiad	3
Rhagarweiniad	5
Nodau	8
Amcanion Asesu	9
Cynnwys y Fanyleb	10
• Y Cynhwysion Cerddorol A-Y	10
• MU1 – MU6	15
Cynllun Asesu	37
Sgiliau Allweddol	42
Disgrifiadau Perfformiad	43
Canllawiau Asesu Mewnol	46

Codau Cofrestru Pwnc/Opsiwn		Cyfrwng Cymraeg	Cyfrwng SAesneg
<i>Cofrestriad "Cyfnewid" Uwch Gyfrannol (UG)</i>		2301	W101
<i>Cofrestriad "Cyfnewid" Safon Uwch (U)</i>		3301	W101
MU 1:	Perfformio Cerddoriaeth	1301	W101
MU 2:	Cyfansoddi Cerddoriaeth	1302	W101
MU 3:	Gwerthuso Cerddoriaeth	1303	W101
MU 4:	Perfformio Cerddoriaeth A	1304	W101
	Perfformio Cerddoriaeth B (Arbenigedd)	1304	W202
MU 5:	Cyfansoddi Cerddoriaeth A	1305	W101
	Cyfansoddi Cerddoriaeth B (Arbenigedd)	1305	W202
MU 6:	Gwerthuso Cerddoriaeth A	1306	W101
	Gwerthuso Cerddoriaeth B	1306	W202

Wrth gofrestru, dylid rhoi '0' o flaen y codau uchod ar gyfer cofrestriadau cyfrwng Saesneg ac 'W' ar gyfer cofrestriadau cyfrwng Cymraeg.

Darpariaeth yr Unedau Asesu				
Uned	Ionawr 2009	Mehefin 2009	Ionawr 2010 a phob blwyddyn wedi hynny	Mehefin 2010 a phob blwyddyn wedi hynny
MU 1		✓		✓
MU 2		✓		✓
MU 3		✓		✓
MU 4				✓
MU 5				✓
MU 6				✓

Rhifau Achredu'r Cymhwyster

Uwch Gyfrannol: 500/2921/6

Uwch: 500/2633/1

CRYNODEB O'R ASESIAD

Rhennir y fanyleb hon yn gyfanswm o 6 uned, 3 uned UG a 3 uned U2. Mynegir y pwysiau a welir isod yn nhermau'r cymhwyster Safon Uwch llawn.

UG (3 uned)

MU1 Perfformio(AA1) 15 % Asesiad allanol

Unawd a/neu berfformiad ensemble

- Dylai hyd y perfformiad fod rhwng 8-10 munud
- Dylai un darn adlewyrchu maes astudio dewisedig
- Asesiad gan arholwr allanol

MU2 Cyfansoddi (AO2) 15% Asesiad Mewnol

Dau ddarn gwrthgyferbyniol

- Dylai cyfanswm perfformio'r ddau gyfansoddiad fod rhwng 4 ac 8 munud o hyd
- Un cyfansoddiad yn arddangos y technegau a'r confensiynau sy'n gysylltiedig â Thraddodiad Clasur y Gorllewin
- Un cyfansoddiad rhydd
- I'w asesu gan yr athro a'i safoni gan y Bwrdd

MU3 Gwerthuso (AO3) 20% Asesiad allanol

Un papur gwrandio mewn dwy ran

- Rhan 1: (12%):prawf **gwerthuso** 1 awr yn seiliedig ar ddyfyniadau o gerddoriaeth (gweithiau gosod) o'r ddau faes astudio a ddewiswyd gan y ganolfan i'w hastudio
- Rhan 2: (8%): prawf 1 awr **dirdadaeth glywedol** (arddyweddiad melodig, cyweirnodau, cordiau, diweddebau), yn seiliedig ar ddyfyniadau cerddorol heb eu paratoi

Safon Uwch (yr uchod ynghyd â'r 3 uned ganlynol– 2 uned o 15% ac 1 o 20%)

Naill ai MU4(A) Perfformio (AA1) 15 % Asesiad allanol

Unawd a/neu berfformiad ensemble

- Dylai hyd y perfformiad fod rhwng 10-12 munud
- Dylai un darn adlewyrchu'r maes astudio newydd (*Cerddoriaeth yr 20^{fed} a'r 21^{ain} ganrif*)
- Asesiad gan arholwr allanol

Neu MU4(B) Perfformio (AO1) 20 % Asesiad allanol

Unawd a/neu berfformiad ensemble

- Dylai hyd y perfformiad fod rhwng 16-18 munud
- Dylai un darn adlewyrchu'r maes astudio newydd (*Cerddoriaeth yr 20^{fed} a'r 21^{ain} ganrif*)
- Dylai un darn adlewyrchu maes astudio arall
- Asesiad gan arholwr allanol

Naill ai MU5(A) Cyfansoddi (AO2) 15% Asesiad Mewnol

Dau ddarn gwrthgyferbyniol

- Dylai cyfanswm perfformio'r ddau gyfansoddiad fod rhwng 6 ac 10 munud o hyd
- Un cyfansoddiad yn arddangos y technegau a'r confensiynau sy'n gysylltiedig â Thraddodiad Clasur y Gorllewin (Parhad o Faes astudio UG)
- Un cyfansoddiad yn adlewyrchu'r maes astudio newydd (*Cerddoriaeth yr 20^{fed} a'r 21^{ain} ganrif*)
- I'w asesu gan yr athro a'i farcio'n allanol

Neu MU5(B) Cyfansoddi (AO2) 20% Asesiad Mewnol

Tri darn gwrthgyferbyniol

- Dylai cyfanswm perfformio'r tri chyfansoddiad fod rhwng 12 ac 18 munud o hyd
- Cyfansoddiad yn arddangos y technegau a'r confensiynau sy'n gysylltiedig â Thraddodiad Clasur y Gorllewin
- Un cyfansoddiad yn adlewyrchu'r maes astudio newydd (*Cerddoriaeth yr 20^{fed} a'r 21^{ain} ganrif*)
- Un cyfansoddiad rhydd arbrofol
- I'w asesu gan yr athro a'i farcio'n allanol

Naill ai MU6(A) Gwerthuso (AO3) 15% Asesiad allanol

Un arholiad ysgrifenedig mewn **dw** ran (2 ¼ awr)

- Rhan 1: (6%) : arholiad **gwrandio** ¾ awr yn seiliedig ar ddyfyniadau o gerddoriaeth anghyfarwydd o'r 20^{fed} / 21^{ain} ganrif (maes astudio newydd)
- Rhan 2 : (9%): arholiad **gwrandio / ysgrifenedig** 1½ awr yn gofyn i ymgeiswyr ddadansoddi darn gosod a'i osod mewn cyd-destun cerddorol ehangach

Neu MU6(B) Gwerthuso (AO3) 20% Asesiad allanol

Un arholiad ysgrifenedig mewn **tair** rhan (3 awr)

- Rhan 1: (6%) : arholiad **gwrandio** ¾ awr yn seiliedig ar ddyfyniadau o gerddoriaeth anghyfarwydd o'r 20^{fed} / 21^{ain} ganrif (maes astudio newydd)
- Rhan 2 : (9%):arholiad **gwrandio / ysgrifenedig** 1½ awr yn gofyn i ymgeiswyr ddadansoddi darn gosod a'i osod mewn cyd-destun cerddorol ehangach
- Rhan 3 : (5%):arholiad **ysgrifenedig** ¾ awr yn gofyn i ymgeiswyr arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o arddull gyffredinol a chynnyrch un o gyfansoddwyr y gweithiau gosod

CERDDORIAETH

1

RHAGARWEINIAD

1.1 Meini Prawf ar gyfer TAG Uwch Gyfrannol ac Uwch

Mae'r fanyleb hon yn cwrdd â gofynion y meini prawf cyffredinol ar gyfer TAG Uwch Gyfrannol (UG) ac Uwch (U) a'r meini prawf pwnc ar gyfer TAG Cerddoriaeth a gyhoeddwyd gan y rheolyddion. Bydd y cymwysterau'n cydymffurfio â gofynion graddio, dyfarnu ac ardystio y Cod Ymarfer ar gyfer cymwysterau 'cyffredinol' (gan gynnwys TAG).

Adroddir cyrhaeddiad yn y cymhwyster UG ar raddfa bum gradd, sef A, B, C, D, E. Adroddir ar y cymhwyster safon Uwch ar raddfa chwe gradd, sef A*, A, B, C, D, E. Bydd dyfarnu A* yn y safon Uwch yn cydnabod y gofynion ychwanegol a geir yn yr unedau U2 o ran 'ymestyn a herio' a gofynion 'synoptig'. Cofnodir cyrhaeddiad ymgeiswyr nad ydynt yn llwyddo i gyrraedd y safon isaf bosib ar gyfer gradd E fel U (annosbarthedig) ac ni fyddant yn derbyn tystysgrif. Lefel cyrhaeddiad yr arholiad Uwch Gyfrannol yw'r hyn a ddisgwylir gan ymgeiswyr a fydd wedi cwblhau hanner cyntaf y cwrs Safon Uwch llawn.

Bydd gan yr unedau asesu UG yr un pwysiad marciau ag ail hanner y cymhwyster (U2) pan fyddant yn cael eu hagregu i gynhyrchu'r dyfarniad Uwch. Mae'r UG yn cynnwys tair uned asesu, sef MU1, MU2 ac MU3 yn y fanyleb hon. Tair uned sydd i'r cwrs U2 hefyd, sef MU4, MU5 ac MU6.

Gellir ailsefyll yr unedau asesu cyn yr ardystio ar gyfer y cymwysterau UG neu U, ac yn yr achosion hynny, y canlyniad gorau a ddefnyddir ar gyfer dyfarnu'r cymhwyster. Bydd oes canlyniadau asesu unigol, cyn eu defnyddio ar gyfer ardystio cymhwyster, yn dibynnu ar oes y fanyleb ei hun, a dim arall.

Mae'r fanyleb a'r deunyddiau asesu ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

1.2 Dysgu blaenorol

- Nid oes unrhyw ofynion penodol parthed dysgu blaenorol, er y bydd llawer o ymgeiswyr wedi ennill gwybodaeth a dealltwriaeth ac wedi datblygu'r sgiliau cerddorol priodol wrth astudio Cerddoriaeth ar gyfer TGAU.
- Gellir astudio'r fanyleb hon gan unrhyw ymgeiswyr beth bynnag eu rhyw neu gefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol.
- Nid yw'r fanyleb yn benodol i oedran ac, oherwydd hynny, mae'n darparu cyfleoedd i ymgeiswyr ymestyn eu haddysg gydol oes.
- Argymhellir fod gan y sawl a fynno ddilyn y cwrs, ddealltwriaeth gerddorol eang a'r gallu i ddatblygu'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n gymesur â gofynion y fanyleb hon.

1.3 Dilyniant

Mae'r fanyleb hon yn cynnig cynllun asesu cytbwys sy'n adeiladu ar sylfaen y Rhaglenni Astudio ar gyfer Cerddoriaeth yng Nghyfnodau Allweddol 1-3, a'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gafwyd yng Nghyfnod Allweddol 4/TGAU, ac yn annog dilyniant trwy Uwch Gyfrannol hyd at Safon Uwch gan fod yn sail ar gyfer astudiaeth bellach.

Mae strwythur chwe rhan y fanyleb hon (3 uned ar gyfer UG, a 3 uned ychwanegol ar gyfer y safon Uwch llawn) yn caniatáu asesu mewn camau ac ar ddiwedd y cwrs ac felly'n caniatáu i ymgeiswyr ohirio penderfyniadau ynglŷn â symud ymlaen o'r cymhwyster UG i'r cymhwyster safon Uwch llawn.

Mae'r fanyleb hon yn darparu sylfaen addas ar gyfer astudio Cerddoriaeth neu faes perthynol, trwy gyfrwng amrediad o gyrsiau addysg uwch neu fynediad uniongyrchol i fyd gwaith. Mae'r fanyleb hon hefyd yn darparu cwrs astudiaeth cydlynol, boddhaol a gwerthfawr ar gyfer ymgeiswyr na fyddant yn mynd ymlaen i astudio'r pwnc hwn ymhellach

1.4 Rhesymeg

Mae'r fanyleb TAG UG/U Cerddoriaeth hon yn adeiladu ar sylfaen y Cwricwlwm Cenedlaethol a TGAU, tra ar yr un pryd, yn cwrdd ag anghenion ymgeiswyr a all fod heb astudio Cerddoriaeth ar y lefelau hyn. Mae'n hybu dilyniant trwy gyfrwng UG ac U gan ddarparu sylfeini addas ar gyfer astudio Cerddoriaeth neu faes astudio addas perthnasol, mewn addysg bellach a/neu ddarpariaeth ar gyfer cyflogaeth a byd gwaith i'r dyfodol. Mae'r fanyleb yn darparu cwrs rhesymegol, boddhaol a gwerthfawr sy'n ehangu gorwelion ac yn miniogi profiadau cerddorol yr ymgeisydd, hyd yn oed pe na baent am ddilyn y pwnc ymhellach.

Darperir cyfleoedd i ymgeiswyr i ddatblygu eu sgiliau dirnadaeth glywedol a'u sgiliau gwerthfawrogi, a chymryd rhan, mewn cerddoriaeth. Maent hefyd yn cael eu hannog i gysylltu gwahanol agweddau cerddorol â'i gilydd, a defnyddio'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth wrth ymdrin â cherddoriaeth anghyfarwydd.

Bydd y fanyleb yn datblygu sgiliau sy'n gymwys i bynciau eraill ac yn cyfoethogi datblygiad diwylliannol yr ymgeiswyr, a hefyd yn cyfoethogi eu mwynhad ymarferol o gerddoriaeth gydol eu hoes.

1.5 Y Cwricwlwm Ehangach

Mae Cerddoriaeth, yn ôl ei hanfod, yn bwnc sy'n gofyn i ymgeiswyr ystyried materion yr unigolyn, materion moesol, moesegol, cymdeithasol, diwylliannol a chyfoes. Mae'r fanyleb hon yn darparu fframwaith i archwilio materion o'r fath ac mae'r cynnwys penodol sydd ynnddi'n caniatáu i gyrsiau unigol roi sylw i'r materion hynny. Bydd y profiadau hyn yn hyrwyddo sensitifrydd yr ymgeiswyr fel gwrandawyr a pherfformwyr, ac efallai yr adlewyrchir eu hymwybyddiaeth o gyd-destun diwylliannol ac ysbrydol cerddoriaeth trwy gyfrwng amser a lleoliad yn eu cyfansoddiadau a'u perfformiadau hwythau.

Mae'r fanyleb hon yn cynnig cyfle eang i'r ymgeiswyr fod yn ymwybodol o'r Dimensiwn Ewropeaidd. Mae lle canolog i draddodiadau ac arferion Ewropeaidd yn y Cwrs.

1.6 Cyfuniadau a waherddir a gorgyffwrdd â chymwysterau eraill

Ar gyfer pob manyleb, rhoddir cod dosbarthu cenedlaethol sy'n nodi i ba faes pynciol y mae'n perthyn. Dylai canolfannau nodi, yn achos yr ymgeiswyr hynny sy'n cofrestru am fwy nag un cymhwyster TAG gyda'r un cod dosbarthu, mai un radd yn unig (yr uchaf) a gyfrifir at ddibenion Tablau Perfformiad Ysgolion a Cholegau. Cod dosbarthu'r fanyleb hon yw 7010.

Nid oes unrhyw orgyffwrdd sylweddol rhwng y fanyleb hon ac unrhyw un arall, er y bydd peth gorgyffwrdd, er enghraifft, â Thechnoleg Cerddoriaeth. Ni waherddir unrhyw gyfuniad.

1.7 Cydraddoldeb ac Asesiad Teg

Yn aml yn yr UG/Safon Uwch, bydd gofyn asesu amrediad eang o gymwyseddau. Gwneir hyn oherwydd eu bod yn gymwysterau cyffredinol a'u bod, felly, yn paratoui ymgeiswyr ar gyfer amrywiol yrfaoedd a chysiau ar lefel uwch.

Adolygwyd y meini prawf cymhwyster a phwnc UG/Safon Uwch er mwyn ystyried a fyddai unrhyw un o'r cymwyseddau oedd eu hangen yn y pwnc yn eithrio ymgeiswyr anabl rhag sefyll y pwnc hwnnw. Mewn achosion o'r fath, adolygwyd y sefyllfa eto i wneud yn siŵr bod cymwyseddau o'r fath ond yn cael eu cynnwys pan oedd gwneud hynny'n hanfodol i'r pwnc. Trafodwyd casgliadau'r broses hon gyda grwpiau'r anabl a phobl anabl eu hunain.

Yn *Cerddoriaeth TAG* gall ymgeiswyr sydd ag anawsterau dysgu ei chael yn anodd i arddangos sgiliau dirnadaeth glywedol. Gall ymgeiswyr sydd â nam ar eu clyw arddangos sgiliau dirnadaeth glywedol drwy ddehongli sgôr cerddoriaeth yn hytrach na gwrando ar y gerddoriaeth ond ni fyddai modd iddynt asesu perfformiad o'r gerddoriaeth. Ehangwyd ystyr y gair perfformio i olygu perfformio/difyfyrion (*realizing*). Golyga hyn ei bod yn bosibl i ymgeiswyr gyda nam corfforol gyflawni 'perfformiad' drwy ddefnyddio seiniau cyfrifiadurol.

Gwneir addasiadau rhesymol ar gyfer ymgeiswyr anabl fel bod yr asesiadau o fewn eu cyrraedd. O'r herwydd, ychydig iawn o ymgeiswyr fydd yn cael eu hatal yn llwyr rhag sefyll unrhyw ran o'r asesiad. Mae gwybodaeth ar addasiadau rhesymol i'w chael yn nogfen y Cyd-gyngor Cymwysterau, *Rheoliadau ac Arweiniad yn ymwneud ag Ymgeiswyr sy'n gymwys am Addasiadau mewn Arholiadau*. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg ar wefan CBAC ac yn Saesneg ar wefan y CGC (www.jcq.org.uk).

Mae'n bosibl y bydd ymgeiswyr na fydd rhan sylweddol o'r asesiad o fewn eu cyrraedd o hyd, hyd yn oed ar ôl archwilio pob posibilrwydd trwy addasiadau rhesymol, ond y bydd modd iddynt dderbyn dyfarniad. Byddent yn cael gradd wedi'i seilio ar y rhannau o'r asesiad a gymerwyd ganddynt a nodir ar eu tystysgrif nad yw'r holl gymwyseddau wedi'u cyflawni. Adolygir hyn o bryd i'w gilydd a gellir newid y drefn yn y dyfodol.

2 NODAU

Mae'r fanyleb hon yn annog yr ymgeiswyr i:

- ymestyn y sgiliau, y wybodaeth a'r crebwyll angenrheidiol wrth gyfathrebu trwy gyfrwng cerddoriaeth a pherfformio
- ymwneud â threftadaeth ddeinamig ac eangfrydig cerddoriaeth, ac ymestyn eu gwerthfawrogiad ohoni er hyrwyddo datblygiad ysbrydol a diwylliannol
- datblygu cryfderau a diddordebau arbennig, gan annog dysgu gydol oes a rhoi cyfle am yrfaedd ym myd cerddoriaeth a meysydd eraill
- cydnabod y cyd-ddibyniaeth sydd rhwng sgiliau cerddorol, gwybodaeth a chrebwyll, ynghyd â'r cysylltiadau rhwng perfformio/difyfrio (*realizing*), cyfansoddi a gwerthuso
- ehangu profiad, datblygu dychymyg, meithrin creadigrwydd a hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol

Dylai'r fanyleb Safon Uwch ymestyn y sgiliau, y wybodaeth a'r crebwyll angenrheidiol a feithrinwyd yn yr UG a bod yn sail i astudio ymhellach.

3

AMCANION ASESU

Rhaid i ymgeiswyr gwrdd â'r amcanion asesu canlynol yng nghyd-destun y cynnwys y manylir arno yn Adran 4 y fanyleb:

AA1

Dehongli syniadau cerddorol gyda rheolaeth dechnegol a mynegiannol a hefyd ymdeimlad o arddull ac o ymwybyddiaeth o'r achlysur a/neu'r ensemble (*perfformio/difyfyrto*)

AA2

Creu a datblygu syniadau cerddorol gyda rheolaeth dechnegol a mynegiannol gan ddefnyddio dyfeisiau a thraddodiadau mewn modd creadigol (*cyfansoddi/trefnu*)

AA3

Arddangos dealltwriaeth o agweddau ar gynnwys, strwythur, mynegiant a chyd-destun y gerddoriaeth a sôn yn sylwgar a phraff amdanynt (*gwerthuso*)

Pwysoli

Dangosir pwysidiadau'r amcanion asesu fel % o'r safon Uwch lawn – (UG mewn cromfachau)

(*MU4, MU5, MU6 – Ymgeiswyr i ddewis 2 uned o 15% ac 1 uned o 20%)

Pwysiad yr Uned	%	AA1%	AA2%	AA3%
MU1	15 (30)	15 (30)		
MU2	15 (30)		15 (30)	
MU3	20 (40)			20 (40)
MU4	15-20*	15-20*		
MU5	15-20*		15-20*	
MU6	15-20*			15-20*
Cyfanswm	100	30-35*	30-35*	35-40*

4

CYNNWYS Y FANYLEB

Y CYNHWYSION CERDDOROL A – Y

Arddulliau Cyfansoddi, Dyfeisiau, Parhad, Dynameg, Ffurfiâu, Nodiant, Perfformiad, Cyweiredd, Gwead

Bydd y cynhwysion cerddorol a restrir isod yn ategu pob *Maes Astudio*. Fodd bynnag nid yw'r rhestr gyfan yn berthnasol i **bob** *Maes Astudio*. Bydd y defnydd priodol a wneir o'r cynhwysion yn cael ei reoli gan y gweithiau, y cyfansoddwyr a'r traddodiadau sydd a wnelo â'r *Maes Astudio* arbennig hwnnw.

ARDDULLIAU CYFANSODDI

- Arddull Baróc
- Arddull Glasurol
- Arddull Ramantaidd
- Arddulliau'r 20 ganrif (Cenedlaetholdeb, Argraffiadaeth, Neo-glasuriaeth, Mynegiadaeth, Minimaliaeth / electronig / aleatorig / cerddoriaeth sioe gerdd / jazz / arddull roc a pop.)

DYFEISIAU

- Efelychiant
- Dilyniant
- Canon
- Fugue
- Ostinato
- Ailadrodd
- Dolen
- Riff
- Grwndfas
- Drôn
- Pedal
- Byrfyfyr
- Unawd
- Cadenza
- Gwrthdro
- Olrediad
- Gwrthro olredol
- Trawsgyweirio
- Stretto
- Technegau cyfyngol
- Antiffoni
- Estyniad
- Cywasgiad
- Gwaith atganol
- Idée Fixe / leitmotif / thema motto
- Gwrthweddu
- Trawsosod
- Datblygiad Motifaidd

PARHAD

Curiad

- Rheolaidd
- Afreolaidd

Mesur

- amseriad syml (dyblyg, triphlyg, pedwarplyg)
- Amseriad cyfansawdd (dyblyg a.y.y.b.)
- Mesuriadau atodol
- Trawsrythmau

Rhythm

- Gwerth nodau
- Rhythmau dot
- Trawsacennu
- Acenion
- Rhythm rhydd
- Isorhythmig
- Acennu
- Hemiola
- Trawsrythmau
- Lluosrythm

Cyflymder/Tempo

- Termau cyflymder o araf iawn i gyflym iawn
- Cyplysir yr holl dermau â'r gweithiau gosod/repertoire unigol

Distawrwydd/Seibiau

DYNAMEG

Graddoli'r sain

- Termau o'r tawel iawn i'r uchel iawn
- Arwyddion/symbolau a ddefnyddir yn rheolaidd
- Cyplysir yr holl dermau â'r gweithiau gosod/repertoire unigol

Acenion

- Subito
- Sforzando

FFURFIAU

- Dwyrán
- Teiran
- Stroffig
- Cyfansoddiad di-dor
- Cylchol
- Ritornello
- Rondo
- Thema ac amrywiadau
- Galwad ac atebiad
- Pennill a chytgan
- Melangan (*Blues*)
- Rhagarweiniad

- Datblygiad
- Coda
- Wythbar canolig
- Sonata
- Sonata Rondo
- Ffurfiâu testunol
- Fugue
- Cylchol

NODIANT

Hen-nodiant

- Allwedd y Trebl
- Allwedd y Bas
- Allwedd yr Alto
- Allwedd y Tenor
- Hapnodau
- Nodiant rhythm
- Seibiau
- Arwyddion cywair i fyny at 6 llonnod a meddalnod
- Arwyddion amser (syml neu gyfansawdd: dyblyg, triphlyg, pedwarplyg/arall)
- Arwyddion/symbolau a ddefnyddir yn rheolaidd
- Arwyddion Metronôm

Graffeg

- Seiniau a ddynodir gan nodiant graffig
- Nodiant gitar priodol
- Symbolau cordiau priodol

PERFFORMIAD

- Brawddegau
- Ynganiad
- Addurniad
- Rubato
- Termau yn ymwneud ag offerynnau unigol a ddefnyddir yn rheolaidd
- Aleatorig
- Arddull gyfannol

TRAW

Siâp Melodig

- Fesul cam (*conjunct*)
- Fesul naid (*disjunct*)
- Cordiol
- Cyfyngol
- Darniad
- Glissando
- Portamento
- Addurniad

Cyfyngau melodig a harmonig

- Cyfyngau diatonig and chromatig (i fyny at yr wythfed)
- Nodau arpeggios/cordiau gwasgar

Graddfeydd

- Mwyaf
- Lleiaf
- Pentatonig
- Melangan (*Blues*)
- Cromatig
- Tonau-cyfan
- 12 – tŷn
- 1:2 a.y.y.b

Moddau

- Mwyaf
- Lleiaf
- Doriaidd
- Aeoliaidd
- Miscolydiaidd
- Phrygiaidd
- Lydiaidd

Cyweiredd

- Mwyaf
- Lleiaf
- Moddol
- Digywair
- Deugywair
- Amlgywair

Harmoni

- Cordiau sylfaen
- Cordiau eilradd
- Cordiau'r seithfed
- Cordiau cywasg
- Cordiau'r nawfed
- Gwrthdroadau
- Seithfedau diatonig
- Appoggiaturas
- Tierce de picardie
- Cordiau nodau atodol
- Cordiau nodau anhepgor a hepgor
- Symbolau cordiau
- Diweddebau – perffaith, amherffaith, amen, annisgwyl, phrygiaidd
- Trawsgyweirio
- Gohiriannau
- Bas Rhifolog
- Harmoneg
- Harmoni cyfwng pedwar
- Harmoni ymarferol
- Harmoni anymarferol
- Cytgord / Cytseinedd
- Anghytgord / Anghytseinedd
- Clystyrau
- Harmoni cromatig
- Harmoniau cyfochrog

GWEAD

Unawd

- Monoffonig
- Unsain
- Offerynnol
- Cyfalaw
- Lleisiol
- Desgant

Harmoni

- Homoffonig
- Poliffonig
- Gwrthbwyntiol
- Tŷn gron
- Heteroffonig

Uwch Gyfrannol

Rhan gyntaf y cwrs Safon Uwch yw'r UG. Bydd yn cyfrannu 50% o'r cyfanswm marciau Safon Uwch. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gwblhau'r **tair uned** ganlynol er mwyn ennill cymhwyster UG.

Disgwylir i ymgeiswyr sicrhau dealltwriaeth drylwyrach o **ddau** faes astudio gwrthgyferbyniol, a rhaid i un ohonynt o leiaf ddod o Restr A – **Traddodiad Clasurol y Gorllewin**

Rhestr A – Traddodiad Clasurol y Gorllewin	Rhestr B
<ul style="list-style-type: none"> • Cerddoriaeth Cerddorfaol 	<ul style="list-style-type: none"> • Sioeau Cerdd
<ul style="list-style-type: none"> • Cerddoriaeth leisiol 	<ul style="list-style-type: none"> • Jazz, Roc a Phop
<ul style="list-style-type: none"> • Cerddoriaeth Siambr 	<ul style="list-style-type: none"> • Caneuon Cymreig

Bydd gofyn i ymgeiswyr sicrhau dealltwriaeth eang drwy allu gosod y meysydd astudio dewisiedig o fewn cyd-destun cerddorol ehangach. Bydd gofyn i'r ymgeiswyr hefyd ddatblygu a defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth gan ddefnyddio geirfa arbenigol sy'n ymwneud â:

- defnydd o'r elfennau cerddorol gan gynnwys dilyniannau harmonig a pherthynol
- adeileddau cerddorol gan gynnwys ffurfiau sefydledig
- nodiant priodol gan gynnwys hen nodiant
- y berthynas rhwng cerddoriaeth a'i chyd-destun, gan gynnwys ymwybyddiaeth o'r dylanwadau sy'n cynnal parhad ac yn achosi newid.

4.1 MU1 Perfformio

15%

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno perfformiad sydd o leiaf 8 munud o hyd ac yn ddim hwy na 10 munud o hyd gan arddangos arddulliau gwrthgyferbyniol fel

(a) aelod o ensemble

- Fel arfer dylai'r perfformiad gynnwys tri neu fwy o berfformwyr gydag o leiaf ddau ohonynt yn bresennol ynghyd â'r ymgeisydd yn ystod y cyflwyniad, (hynny yw, nid tîp parod).
- Yn eithriadol, mae deuwad **bona fide** yn dderbyniol, e.e. cyfeiliant lieder, deuwad piano ac ati. Os oes amheuaeth ynglŷn â'r ensemble dylid cysylltu â CBAC.
- Dylid gofalu wrth ddewis darn ei fod yn addas, gan roi cyfle i'r ymgeisydd arddangos ei sgiliau wrth chwarae mewn ensemble.
- Ni chaniateir i neb arall ddyblu rhan yr ymgeisydd yn yr ensemble.
- Nid yw'n ofynnol i aelodau eraill yr ensemble fod yn ymgeiswyr yn yr arholiad
- Ni chaniateir arweinydd i'r ensemble.

neu

(b) unawdydd offerynnol neu leisiol

neu

(c) cyfuniad o (a) a (b).

Mae'n ofynnol i un o'r darnau a berfformir fod yn berfformiad difyfyf o un o'r cyfansoddiadau a gynigiwyd yn MU2 **neu** yn adlewyrchiad o un o'r Meysydd Astudio a ddewiswyd ar gyfer UG / a astudiwyd yn MU3

Awgrymir y dylai ymgeiswyr sy'n dewis perfformio un o'u cyfansoddiadau eu hunain ddewis darn addas gan wneud yn siŵr ei fod yn rhoi cyfle iddynt arddangos doniau perfformio o'r radd flaenaf

Ni chyfyngir ymgeiswyr i un offeryn neu lais.

Bydd y perfformiadau (unawdol a/neu ensemble lle bo'n briodol) yn cael eu recordio a'u hasesu'n allanol gan arholwr yn ymweld â chanolfan a benodir gan CBAC. Mae'n ofynnol i'r ymgeiswyr sicrhau fod gan yr arholwr fanylion y rhaglen a llungopïau o'r gerddoriaeth a berfformir yn yr asesiad.

Bydd arholwyr y Bwrdd yn ymweld â chanolfannau i asesu'r uned hon ar ddyddiad penodedig yn ystod Ebrill/Mai.

Er mwyn helpu athrawon ac ymgeiswyr wrth ddewis cerddoriaeth ar gyfer yr uned hon, mae meini prawf ar gyfer asesu perfformio wedi'u darparu. Lluosir y marc a enillwyd am safon y perfformiad gan un o'r rhifau canlynol yn ôl graddfa anhawster y gerddoriaeth mewn perthynas â'r arholiadau cerddoriaeth graddedig (GME).

Repertoire yn ôl Safon Gradd 5 ACG neu'n uwch: x 3

Repertoire yn ôl Safon Gradd 4 ACG : x 2.7

Repertoire yn ôl Safon Gradd 3 ACG neu'n is: x 2.4

4.2 MU2 Cyfansoddi**15%**

Bydd yr uned hon yn rhoi cyfle i'r ymgeiswyr ddatblygu a defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth o'r elfennau cerddorol megis dilyniannau harmonig a pherthynol yn ogystal â dangos ymwybyddiaeth o arddulliau cerddorol arbennig.

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno **dau** gyfansoddiad gwrthgyferbyniol.

- (i) rhaid i un cyfansoddiad adlewyrchu'r technegau a'r confensiynau sy'n gysylltiedig â Thraddodiad Clasurol y Gorllewin.
- (ii) cyfansoddiad rhydd

Dylai cyfanswm perfformio'r cyfansoddiadau fod rhwng 4 ac 8 munud o hyd. Anogir y defnydd o dechnoleg yn y maes astudio hwn. Fodd bynnag, dylid osgoi'r defnydd o samplau anwreiddiol cerddoriaeth barod: pan fo defnydd ohonynt, rhaid cofnodi hynny'n glir ar y ffurflen briodol y bydd CBAC yn ei darparu, sydd ei hangen ar gyfer pob cyfansoddiad.

Dylai'r cyfansoddiadau arddangos:

- datblygiad syniadau cerddorol
- dealltwriaeth o gydbwysedd, ffurf ac adeiledd
- defnydd priodol o leisiau, offerynnau a/neu seiniau wedi'u syntheseiddio
- sensitifrwydd yng nghyd-destun ansawdd a gwead
- cysondeb arddull
- gwybodaeth dechnegol o'r cyfrwng a ddefnyddiwyd
- dealltwriaeth briodol o harmoni

- (i) **Cyfansoddiad 1:** cyfansoddiad 'arddull' sy'n dangos dealltwriaeth o iaith gerddorol Traddodiad Clasurol y Gorllewin.

Lluniwyd y cyfansoddiad 'arddull' angenrheidiol hwn o fewn U2 er mwyn annog ymgeiswyr i ymgyfarwyddo â nodweddion arddulliol a chyfansoddol Traddodiad Clasurol y Gorllewin. Wrth i ymgeiswyr astudio'r gweithiau gosod o blith Rhestr A, fe'u hanogir i ganfod dyfeisiau a thechnegau priodol y gellir efallai eu cynnwys a'u datblygu yn eu cyfansoddiadau eu hunain i greu canlyniad cyson o fewn idiom donawl gydnabyddedig.

Trwy gyfrwng eu cyfansoddi mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddangos rheolaeth dechnegol a dealltwriaeth gyffredinol o'r elfennau cerddorol, gan wneud defnydd creadigol o'r dyfeisiau cyfansoddi priodol, confensiynau ac adnoddau a welir yn Nhraddodiad Clasurol y Gorllewin.

Fel canllaw, gall ymgeiswyr ddewis cyfansoddi ar gyfer un o'r canlynol:

- cyfansoddiad ar gyfer allweddell unawdol/piano, neu gitar
- cyfansoddiad ar gyfer offeryn unawdol a chyfeiliant
- cyfansoddiad ar gyfer llais unawdol a chyfeiliant
- deuawd/triawd/pedwarawd ar gyfer offerynnau
- deuawd/triawd/pedwarawd ar gyfer lleisiau

Yn ogystal gall ymgeiswyr ystyried rhai o'r nodweddion cerddorol canlynol:

Adeiledd /Trefniadaeth	Dyfeisiau / Datblygu syniadau	Cyweiredd / Harmoni
ffurf ddwyran ffurf deiran ffurf ritornello ostinato grwndfas ffurf da capo ffurf stroffig	cydbwysedd melodig a brawddegau efelychiant dilyniannau croesacen amrywiaeth rythmig galwad ac ateb nodau pedal haenau o syniadau cerddorol syniadau gwrthgyferbyniol amrywiaeth gwead ehangu deunyddiau datblygiad motifau	Cyweiriau mwyaf Cyweiriau lleiaf harmonïau deiatonig cordiau a'u gwrthdro seithfedau ar y llywydd trawsgyweiriad i'r llywydd trawsgyweiriad i'r cywair perthynol lleiaf dilyniannau cordiau diweddebau rhythmau harmonig nodau camu nodau tonnog nodau anhepgor/hepgor

(ii) **Cyfansoddiad 2:** cyfansoddi'n rhydd. Er bod ymgeiswyr hwyrach yn dal o dan ddylanwad ymarfer da cydnabyddedig, lluniwyd y gofyniad hwn i annog ymgeiswyr i fynegi ac i ddatblygu eu syniadau unigol mewn modd dychmygus a chreadigol.

Gall cyfansoddiadau gael eu cyflwyno naill ai ar gaset, CD neu MD.

Rhaid recordio pob cyfansoddiad, a'i gyflwyno gyda sgôr a fo'n briodol i'r nodiant.

Rhaid i recordiad heb sgôr draddodiadol gynnwys ffurflen â holl fanylion y broses gyfansoddi arni, gan ddangos yn gwbl eglur amcanion y cyfansoddw, manylion cerddorol y cyfansoddiad, a disgrifiad o'r arwyddion performio ar gyfer datganiad difyfr o'r darn.

Rhaid i bob cyfansoddiad gynnwys crynodeb o'r symbyliad gwreiddiol, a disgrifiad o'r broses gyfansoddi a'r technegau cerddorol a ddefnyddiwyd. Darperir ffurflen briodol ar gyfer y wybodaeth hon gan CBAC.

Asesir y cyfansoddiadau yn fewnol gyda samplau o'r gwaith wedi'u hanfon at CBAC erbyn dyddiad penodedig ym mis Mai i'w safoni'n allanol.

Mae meini prawf asesu wedi'u darparu ar gyfer athrawon.

Mae Canllawiau ar gyfer asesu mewnol wedi'u hargraffu yn Adran 8 y fanyleb hon.

4.3 MU3 Gwerthuso**20%**

Arholiad 2 awr mewn dwy ran, Rhan 1 a 2, fydd yr asesiad allanol. Gosodir y cwestiynau gan CBAC a bydd y dyfyniadau yn cael eu recordio ar gyfer Rhan 1 a 2 ar Gryno Ddisg. Cynhelir yr arholiad ar ddyddiad penodedig ym mis Mai/Mehefin.

Rhan 1 (12%)

Prawf gwerthuso 1 awr yn seiliedig ar ddyfyniadau o gerddoriaeth allan o'r gweithiau gosod sy'n gysylltiedig â'r ddau Faes Astudio a ddewiswyd gan y ganolfan i'w hastudio

Bydd astudio'r gweithiau gosod a ddewisir yn rhoi cyfle i'r ymgeiswyr ymchwilio i mewn i'r berthynas rhwng cerddoriaeth a'i chyd-destun ac i adnabod y dylanwadau sy'n cynnal parhad ac yn achosi newid. Chwaraeir pob dyfyniad deirgwaith gyda seibiau pwrpasol er mwyn i'r ymgeiswyr ysgrifennu eu hatebion.

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr drwy astudiaeth o'r gweithiau gosod i:

- ganolbwyntio ar agweddau o'r gweithiau gosod megis alaw, harmoni, rhythm, cyweiredd, offeryniaeth, ffurf a gwead;
- sôn am agweddau megis cyd-destun, mynegiant ac adeiledd y gerddoriaeth;
- osod y Maes Astudio dewisedig o fewn y persbectif cerddorol ehangach;
- arddangos dealltwriaeth drwyadl a chymhwyso'u gwybodaeth trwy ddefnyddio geirfa arbenigol.

Meysydd Astudio

Rhestr A – Traddodiad Clasuroly y Gorllewin	Rhestr B
• Cerddoriaeth gerddorfaol	• Sioeau Cerdd
• Cerddoriaeth Leisiol	• Jazz, Roc a Phop
• Cerddoriaeth Siambr	• Caneuon Cymreig

Gweithiau gosod**Rhestr A – Traddodiad Clasuroly y Gorllewin (1650-1900)****Cerddoriaeth Gerddorfaol**

1. J.S.Bach: *Concerto Brandenburg Rhif 2, Symudiad 1af*
2. Beethoven: *Symffoni Rhif 5 yn C leiaf, Symudiad 1af*
3. Mendelssohn: *Concerto i'r Ffidil, Symudiad 1af*

Cerddoriaeth Leisiol (unawd a chorawl)

1. Handel: *Zadoc Ŵr Duw*
2. Haydn: *Offeren Nelson (Gloria, Quoniam, Credo)*
3. Schubert: *Lieder – o Die Schone Mullerin (Am Feierabend, Der Neugierige, Ungeduld)*

Cerddoriaeth Siambr

1. Corelli: *Sonata da Camera op.2 rhif 7 in F (Preludio, Allemande, Corrente, Giga)*
2. Beethoven: *Pedwarawd Llinynnol yn Bb Op.18, Rhif 6, Symudiad 1af*
3. Brahms: *Sonata i'r Clarinet yn Eb Op.120, Rhif 2, 3ydd Symudiad*

Rhestr A

Jazz, Roc a Phop

1. Duke Ellington: *Black and Tan Fantasy, Take the 'A' Train*
2. Beatles: *Yesterday, Hey Jude*
3. Queen: *Bohemian Rhapsody, Killer Queen*

Sioeau Cerdd

1. Loesser: *Guys and Dolls (Runyonland, Fugue for Tin Horns)*
2. Bernstein: *Westside Story (Tonight, Maria)*
3. Boublil a Schoenberg: *Les Misérables (On my Own, One Day More)*

Caneuon o Gymru

1. Mervyn Burtch: o *Tair o Ganeuon Gwerin 'Cysga di fy mhlentyn tlws', 'Wrth fynd hefo Deio i Dywyn'*
2. Dilys Elwyn-Edwards: o *Caneuon Y Tri Aderyn: 'Y Gylfinir', 'Mae Hiraeth yn y Mor'*
3. Caryl Parry Jones: *'Pan ddaw yfory', 'Y Nos yng Nghaer Arianrhod'*

Rhan 2 (8%)

Prawf **dirnadaeth glywedol** 1 awr o hyd wedi'i seilio ar ddyfyniadau o gerddoriaeth heb eu paratoi o Draddodiad Clasurol y Gorllewin

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr:

- sôn am yr agweddau adeileddol, mynegiannol a chyd-destunol; gall hyn olygu er enghraifft, gyfeiriad at offeryniaeth, gwedd, cyweiredd, parhad a newid;
- gynnig barn yn seiliedig ar adnabyddiaeth o nodweddion cerddorol;
- gwblhau adran fer o sgôr sgerbwdd sy'n ymwneud â thraw a rhythm;
- adnabod diweddebau ac enwi trawsgyweiriau (i gyweirnodau perthynol agos ac i'r tonydd mwyaf/lleiaf).

Safon Uwch

Mae'r fanyleb Safon Uwch mewn dwy ran: Rhan 1 (UG) a Rhan 2 (U2)

Gellir sefyll Rhan 1 (Uwch Gyfrannol) ar wahân, a'i ychwanegu at yr U2 mewn arholiad arall er mwyn sicrhau cymhwyster Uwch, neu fel arall, gellir sefyll yr arholiadau UG ac U2 gyda'i gilydd yn yr un sesiwn.

Disgwylir i ymgeiswyr gwblhau'r unedau UG uchod yn ogystal â thair uned ychwanegol er mwyn cwblhau cwrs Cerddoriaeth Safon Uwch.

Bydd yr unedau UG yn cyfrannu 50% o'r cyfanswm marciau Safon Uwch.

Mae'r fanyleb U2 yn cynnwys tair uned asesu.

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr:

- arddangos sgiliau dimadaeth glywedol wahaniaethol fanylach
- defnyddio ystod ehangach, rheolaeth a chymhwysiad datblygedig manylach o dechnegau a chonfensiynau penodol;
- dangos mwy o ymwybyddiaeth arddull mewn perfformiadau unawdol a/neu berfformiadau ensemble, difyfyf a gweithgareddau cyfansoddi:
- dangos astudiaeth drylwyrach o fewn un o'r meysydd astudio dewisedig;
- cynyddu ehangder yr astudiaeth i gynnwys un maes astudio ychwanegol, sef **Cerddoriaeth yn yr 20^{fed} a'r 21^{ain} ganrif (Maes Astudio 3)**;
- gwneud cysylltiadau ehangach e.e. rhwng cerddoriaeth a'i chyd-destun, rhwng meysydd gwybodaeth gwahanol a hefyd rhwng agweddau gwahanol o weithgareddau cerddorol:
- cymhwyso'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth gerddorol a enillwyd drwy astudio yn yr UG ac U at gerddoriaeth anghyfarwydd.

4.4 MU4 (A) Perfformio

15%

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno perfformiad sydd o leiaf 10 munud o hyd ac yn ddim mwy na 12 munud o hyd gan arddangos arddulliau gwrthgyferbyniol megis

(b) aelod o ensemble

- Fel arfer dylai'r perfformiad gynnwys tri neu fwy o berfformwyr gydag o leiaf ddau ohonynt yn bresennol ynghyd â'r ymgeisydd yn ystod y cyflwyniad, (hynny yw, nid tâp parod)
- Yn eithriadol, mae deuawd **bona fide** yn dderbyniol, e.e. cyfeiliant lieder, deuawd piano ac ati. Os oes amheuaeth ynglŷn â'r ensemble dylid cysylltu â CBAC.
- Dylid gofalu wrth ddewis darn ei fod yn addas, gan roi cyfle i'r ymgeisydd arddangos ei sgiliau wrth chwarae mewn ensemble
- Ni chaniateir i neb arall ddyblu rhan yr ymgeisydd yn yr ensemble.
- Nid yw'n ofynnol i aelodau eraill yr ensemble fod yn ymgeiswyr yn yr arholiad
- Ni chaniateir arweinydd i'r ensemble.

neu

(b) unawdydd offerynnol neu leisiol

neu

(c) cyfuniad o (a) a (b).

Rhaid i un o'r darnau a berfformir adlewyrchu'r Maes Astudio newydd a ddewiswyd ar gyfer **U2 – Cerddoriaeth yr 20^{fed} a'r 21^{ain} ganrif**

Ni chyfyngir ymgeiswyr i un offeryn neu lais.

Bydd y perfformiadau (unawdol a/neu ensemble lle bo'n briodol) yn cael eu recordio a'u hasesu'n allanol gan arholwr yn ymweld â chanolfan a benodir gan CBAC. Mae'n ofynnol i'r ymgeiswyr sicrhau fod gan yr arholwr fanylion y rhaglen a llungopiau o'r gerddoriaeth a berfformir yn yr asesiad.

Bydd arholwyr CBAC yn ymweld â chanolfannau i asesu'r uned hon ar ddyddiad penodol yn ystod Ebrill/Mai.

Er mwyn helpu athrawon ac ymgeiswyr i ddewis cerddoriaeth ar gyfer yr uned hon, mae meini prawf ar gyfer Asesu Perfformio wedi'u darparu. Disgwylir i'r darnau a berfformir fod o safon gynyddol uwch nag eiddo UG, gan arddangos sgiliau technegol uwch ynghyd â galluoedd dehongli dwysach sy'n debyg i safonau uwch yr arholiadau cerdd cyhoeddus cyfredol. Lluosir y marc a enillwyd am safon y perfformiad gan un o'r rhifau canlynol yn ôl graddfa anhawster y gerddoriaeth mewn perthynas â'r arholiadau cerddoriaeth graddedig (GME).

Repertoire yn ôl Safon Gradd 6 ACG neu'n uwch: x 3

Repertoire yn ôl Safon Gradd 5 ACG : x 2.7

Repertoire yn ôl Safon Gradd 4 ACG neu'n is: x 2.4

4.4.1 MU4 (B) Perfformio

20%

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno perfformiad sydd o leiaf 16 munud o hyd ac yn ddim hwy na 18 munud o hyd gan arddangos arddulliau gwrthgyferbyniol fel

(c) aelod o ensemble

- Fel arfer dylai'r perfformiad gynnwys tri neu fwy o berfformwyr gydag o leiaf ddau ohonynt yn bresennol ynghyd â'r ymgeisydd yn ystod y cyflwyniad, (hynny yw, nid tîp parod)
- Yn eithriadol, mae deuwad **bona fide** yn dderbyniol, e.e. cyfeiliant lieder, deuwad piano ac ati. Os oes amheuaeth ynglŷn â'r ensemble dylid cysylltu â CBAC.
- Dylid gofalu wrth ddewis darn ei fod yn addas, gan roi cyfle i'r ymgeisydd arddangos ei sgiliau wrth chwarae mewn ensemble
- Ni chaniateir i neb arall ddyblu rhan yr ymgeisydd yn yr ensemble.
- Nid yw'n ofynnol i aelodau eraill yr ensemble fod yn ymgeiswyr yn yr arholiad
- Ni chaniateir arweinydd i'r ensemble.

neu

(b) unawdydd offerynnol neu leisiol

neu

(c) cyfuniad o (a) a (b).

Mae'n ofynnol i un o'r darnau a berfformir adlewyrchu'r Maes astudio newydd a ddewiswyd ar gyfer **U2 – Cerddoriaeth yr 20^{fed} a'r 21^{ain} ganrif**

Rhaid i ail ddarn adlewyrchu maes astudio ychwanegol

Ni chyfyngir ymgeiswyr i un offeryn neu lais.

Bydd y perfformiadau (unawdol a/ensemble lle bo'n briodol) yn cael eu recordio a'u hasesu'n allanol gan arholwr yn ymweld â chanolfan a benodir gan CBAC. Mae'n ofynnol i'r ymgeiswyr sicrhau fod gan yr arholwr fanylion y rhaglen a llungopiau o'r gerddoriaeth a berfformir yn yr asesiad.

Bydd arholwyr CBAC yn ymweld â chanolfannau i asesu'r uned hon ar ddyddiad penodol yn ystod Ebrill/Mai.

Er mwyn helpu athrawon ac ymgeiswyr i ddewis cerddoriaeth ar gyfer yr uned hon, mae meini prawf ar gyfer Asesu Perfformio wedi'u darparu. Disgwylir i'r darnau a berfformir fod o safon gynyddol uwch nag eiddo UG, gan arddangos sgiliau technegol uwch ynghyd â galluoedd dehongli dwysach sy'n debyg i safonau uwch yr arholiadau cerdd cyhoeddus cyfredol. Lluosir y marc a enillwyd am safon y perfformiad gan un o'r rhifau canlynol yn ôl graddfa anhawster y gerddoriaeth mewn perthynas â'r arholiadau cerddoriaeth graddedig (GME).

Repertoire yn ôl Safon Gradd 6 ACG neu'n uwch: x 3

Repertoire yn ôl Safon Gradd 5 ACG : x 2.7

Repertoire yn ôl Safon Gradd 4 ACG neu'n is: x 2.4

4.5 MU5 (A) Cyfansoddi**15%**

Bydd yr uned hon yn rhoi cyfle i ymgeiswyr ddatblygu a defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth o'r elfennau cerddorol megis dilyniannau harmonig a pherthynol yn ogystal â dangos ymwybyddiaeth o arddulliau cerddorol arbennig.

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno **dau** gyfansoddiad 'arddull' gwrthgyferbyniol.

- (i) Darn sy'n adlewyrchu'r technegau a'r confensiynau cerddorol sy'n gysylltiedig â Thraddodiad Clasurol y Gorllewin. Mae'n barhad o waith UG ond yn drylwyrach, ac yn ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth yr ymgeiswyr am dechnegau a ddangoswyd eisoes i raddau yn MU2.
- (ii) Darn sy'n cysylltu â'r Maes Astudio newydd, ac yn adlewyrchu'r technegau, nodweddion a'r confensiynau sy'n hynod i'r 20^{fed} / 21^{ain} ganrif. Mae gofyn i'r cyfansoddiad hwn arddangos y wybodaeth a'r ddealltwriaeth am dechnegau cerddorol a ddysgwyd drwy astudio a dadansoddi'r gwaith gosod dewisedig a'r gwaith gwranddo perthnasol yn MU6.

Dylai cyfanswm perfformio'r cyfansoddiadau fod o leiaf 6 munud o hyd ac yn ddim hwy na 10 munud o hyd. Anogir y defnydd o dechnoleg yn y maes astudio hwn. Fodd bynnag, dylid osgoi'r defnydd o samplau anwreiddiol cerddoriaeth barod: pan fo defnydd ohonynt, rhaid cofnodi hynny'n glir ar y ffurflen briodol y bydd CBAC yn ei darparu, sydd ei hangen ar gyfer pob cyfansoddiad.

Gellir seilio'r cyfansoddiadau ar gomisiynau gwahanol drwy ddewis o'r rhestr isod.

- Cerddoriaeth achlysurol a/neu ganeuon ar gyfer drama benodedig neu sgrïpt ffilm.
- Cyfansoddiad sy'n arddangos agweddau ar efelychiant.
- Gosodiad o eiriau.
- Cyfansoddiad sy'n defnyddio un cyfwng fel sail i ymchwiliad cerddorol.
- Symudiad sy'n defnyddio ffurfiau neu arddulliau confensiynol.
- Symudiad sy'n defnyddio arddull gyfoes benodedig.

Dylai'r cyfansoddiadau arddangos:

- datblygiad syniadau cerddorol
- dealltwriaeth am gydbwysedd, ffurf ac adeiledd
- defnydd priodol o leisiau, offerynnau a/neu seiniau wedi'u syntheseiddio
- sensitifrwydd o ran ansawdd a gwead
- cysondeb arddull
- gwybodaeth dechnegol am y cyfwng a ddefnyddiwyd
- dealltwriaeth briodol am harmoni

(i) **Cyfansoddiad 1:** cyfansoddiad 'arddull' sy'n dangos dealltwriaeth o iaith gerddorol Traddodiad Clasurol y Gorllewin.

Lluniwyd y cyfansoddiad 'arddull' anghenrheidiol er mwyn annog ymgeiswyr i ymgyfarwyddo' â nodweddion arddulliol a chyfansoddol Traddodiad Clasurol y Gorllewin. Wrth i ymgeiswyr astudio'r gwaith gosod yn drylwyrach ar gyfer MU6, fe'u hanogir i adnabod dyfeisiau a thechnegau priodol y gellir hwyrach eu cynnwys a'u datblygu yn eu cyfansoddiadau eu hunain i greu canlyniad cyson o fewn idiom donawl gydnabyddedig.

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddangos rheolaeth dechnegol a dealltwriaeth gyffredinol dros yr elfennau cerddorol, gan wneud defnydd creadigol o'r dyfeisiau cyfansoddi priodol, confensiynau ac adnoddau a welir yn Nhraddodiad Clasurol y Gorllewin.

Bydd yr uned MU5 yn rhoi cyfle i adeiladu ar y ddealltwriaeth gerddorol a ddysgwyd ac a ddefnyddiwyd gynt yn MU2. Dylai ymgeiswyr ddangos eu gwybodaeth gerddorol ehangach drwy gyflwyno cyfansoddiad sydd â mwy o swmp a sylwedd iddo, gan adlewyrchu eu profiad cynyddol o wrando ac o berfformio.

Mae angen iddynt arddangos defnydd o eirfa gerddorol ehangach, dangos dealltwriaeth clir o allu offerynnau ac o leisiau, a phrofi rheolaeth feddylgar dros ddilyniannau harmonig a gweadau.

Fel canllaw, gall ymgeiswyr ddewis cyfansoddi ar gyfer un o'r canlynol:

- cyfansoddiad ar gyfer allweddell unawdol/piano, neu gitar
- cyfansoddiad ar gyfer offeryn unawdol a chyfeiliant
- cyfansoddiad ar gyfer llais unawdol a chyfeiliant
- deuawd/triawd/pedwarawd ar gyfer offerynnau
- deuawd/triawd/pedwarawd ar gyfer lleisiau
- cyfansoddiad ar gyfer cerddorfa/ensemble mawr
- cyfansoddiad ar gyfer ensemble llinynnol/pres/chwythbren
- cyfansoddiad ar gyfer côr a chyfeiliant

Gall ymgeiswyr ystyried rhai o'r nodweddion cerddorol canlynol:

Adeiledd /Trefniadaeth	Dyfeisiau / Datblygu syniadau	Cyweiredd / Harmoni
ffurf ddwyran ffurf deiran ffurf ritornello ostinato grwndfas ffurf da capo ffurf stroffig	cydbwysedd melodig a brawddegau efelychiant dilyniannau croesacen amrywiaeth rythmig galwad ac ateb nodau pedal haenau o syniadau cerddorol syniadau gwrthgyferbyniol amrywiaeth gwead ehangu deunyddiau datblygiad motifau	Cyweiriau mwyaf Cyweiriau lleiaf harmonïau deiatonig cordiau a'u gwrthdro seithfedau ar y llywydd trawsgyweiriad i'r llywydd trawsgyweiriad i'r cywair perthynol lleiaf dilyniannau cordiau diweddebau rhythmau harmonig nodau camu nodau tonnog nodau anhepgor/hepgor
ffurf sonata	gwrthdroi syniadau ffiwgaidd/gwrthbwynt	seithfedau deiatonig cylch o bumedau
thema ac amrywiadau	estyniad cywasgiad	harmonï cromataidd anghytgordiau'r llywydd uwch
cyfansoddi di- dor cerddoriaeth destunol	olrediad datblygiad atganol	trawsgyweirio i amrywiaeth o gyweiriau perthynol gohiriannau

(ii) **Cyfansoddiad 2:** cyfansoddiad sy'n dangos ac yn adlewyrchu dealltwriaeth o iaith gerddorol y 20^{fed} / 21^{ain} ganrif.

Lluniwyd hwn er mwyn annog ymgeiswyr i ymglyfarwyddo ac i arbrofi â nodweddion arddulliol a chyfansoddol yr 20^{fed} / 21^{ain} ganrif. Wrth i ymgeiswyr astudio'r gwaith gosod yn drylwyrach ar gyfer MU6, ynghyd â'u gwaith paratoi ar gyfer Papur 1 o'r prawf gwerthuso, anogir ymgeiswyr i ganfod dyfeisiau a thechnegau priodol y gellir efallai eu cynnwys a'u datblygu yn eu cyfansoddiadau eu hunain i greu canlyniad dychmygus, sylweddol a chyson.

Gellir ysgrifennu'r cyfansoddiad ar gyfer unrhyw ensemble neu gyfuniad o darddseiniau lle bo hynny'n addas.

Tra bo modd defnyddio rhai o'r dyfeisiau sy'n gysylltiedig â Thraddodiad Clasurol y Gorllewin yn y cyfansoddiad hwn, dylai ymgeiswyr hefyd ystyried yr enghreifftiau ychwanegol isod sy'n adlewyrchu'r 20^{fed} ganrif.

Arddulliau	Nodweddion Cyfansoddi/Dyfeisiau
Argraffiadaeth	Er enghraifft: graddfeydd tonau cyfan a chromatig, cordiau cyfochrog, cordiau'r nawfed, rhythmau llyfn, sgorio lliwgar a thrwchus, anghytseiniau heb eu hadfer, defnydd o rhythmau rhydd, ffurfiau testunol bychain.
Cenedlaetholdeb	Er enghraifft: adlewyrchiadau gwladgarol a diwylliannol, dylanwad llên a chaneuon gwerin, ffurfiau a syniadau testunol.
Neo-Glasuriaeth	Er enghraifft: defnydd o gerddoriaeth absoliwt, sylw i grefftwriaeth a chydbwysedd ffurfiau ac adeileddau, technegau ffiwgaidd a gwrthbwyntiol a ddylanwadwyd gan gyfnodau'r Baroc a Chlasurol.
Mynegiadaeth	Er enghraifft: technegau cyfresol a'r raddfa ddeuddeg tôn, anghydseindedd, rhythmau a mesurau afreolaidd, alawon onglog a rhestrau eithaf, digyweiredd.
Minimaliaeth	Er enghraifft: undod cyflawn, plethiad rhythmig, cydweddiad, triniaeth ddychmygus a chymwys o gelloedd melodig.
Jazz	Er enghraifft: arddulliau croesacennog a byrffyr, nodweddion y 'blues', cordiau jazz cymhleth, cordiau homoffonig bachog, rhythmau swing, defnydd o linellau bâs arddulliol, traciau rhythmig, 'fills' addas, syniadau cyfalawol a chyfeiliol.

Nodweddion cerddorol cyffredinol i'w hystyried:

- Offeryniaeth - estynedig, mwy o gyferbyniaeth, grwpiau anarferol
- Timbres – effeithiau arbrofol, gyda chyfarwyddiadau perfformio gorfawl
- Gweadau – eang ar adegau, ymestynedig; yn wrthgyferbyniol, yn aml yn gymhleth, antiffoniaidd, poliffonig
- Harmoni – anghytseindedd a chromatiaeth eithaf, â symudiad unllin yn lle syniadaeth cordiol, nodweddion moddol yn cael eu hymgorffori weithiau, syniadaeth newydd o harmoni i gynnwys policordiau, poligyweiredd, digyweiredd
- Alaw – onglog a motifaidd, gyda rhestrau eithaf, syniadau a phatrymau cyfyngol
- Rhythm – cymleth, afreolaidd, acenion symudol, croesacen.

Gall ymgeiswyr hefyd ddewis adlewyrchu arddulliau cerddorol megis Roc, Pop a Sioeau Cerdd.

Gall cyfansoddiadau gael eu cyflwyno naill ai ar gaset, CD neu MD.

Rhaid recordio pob cyfansoddiad, a'i gyflwyno gyda sgôr a fo'n briodol i'r nodiant.

Rhaid i recordiad heb sgôr draddodiadol gynnwys ffurflen â holl fanylion y broses gyfansoddi arni, gan ddangos yn gwbl eglur amcanion y cyfansoddwr, manylion cerddorol y cyfansoddiad, a disgrifiad o'r arwyddion perfformio ar gyfer datganiad difyfyf o'r darn.

Rhaid i bob cyfansoddiad gynnwys crynodeb o'r symbyliad gwreiddiol, a disgrifiad o'r broses o gyfansoddi a'r technegau cerddorol a ddefnyddiwyd. Darperir ffurflen briodol ar gyfer y wybodaeth hon gan CBAC.

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno'r cyfansoddiadau erbyn dyddiad penodedig ym mis Mai i'w marcio gan CBAC.

Mae meini prawf wedi'u darparu ar gyfer athrawon.

4.5.1 MU5 (B) Cyfansoddi**20%**

Bydd yr uned hon yn rhoi cyfle i ymgeiswyr ddatblygu a defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth o'r elfennau cerddorol megis sylfeini dilyniannau harmonig a pherthynol yn ogystal â dangos ymwybyddiaeth o arddulliau cerddorol arbennig.

Mae gofyn i ymgeiswyr gyflwyno **tri** chyfansoddiad gwrthgyferbyniol.

- (i) Darn sy'n adlewyrchu'r technegau a'r confensiynau cerddorol sy'n gysylltiedig â Thraddodiad Clasurol y Gorllewin. Mae'n barhad o waith UG ond yn drylwyrach, ac yn ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth yr ymgeiswyr am dechnegau a ddangoswyd eisoes i raddau yn MU2.
- (ii) Darn sy'n cysylltu â'r Maes Astudio newydd, ac yn adlewyrchu'r technegau, nodweddion a'r confensiynau sy'n hynod i'r 20^{fed} / 21^{ain} ganrif. Rhaid i'r cyfansoddiad hwn arddangos y wybodaeth a'r ddealltwriaeth am dechnegau cerddorol a ddysgwyd drwy astudio a dadansoddi'r gwaith gosod dewisedig a'r gwaith gwrando cysylltiol yn MU6.
- (iii) Cyfansoddiad rhydd

Dylai cyfanswm perfformio'r cyfansoddiadau fod yn 12 munud o hyd o leiaf ac yn 18 munud o hyd ar y mwyaf. Anogir y defnydd o dechnoleg yn y maes astudio hwn.

Gellir seilio'r cyfansoddiadau ar gomisiynau gwahanol drwy ddewis o'r rhestr isod.

- Cerddoriaeth achlysurol a/neu ganeuon ar gyfer drama neu sgript ffilm a bennir.
- Cyfansoddiad sy'n arddangos agweddau ar ddynwarediad.
- Gosodiad o eiriau.
- Cyfansoddiad sy'n defnyddio un cyfwng fel sail i ymchwiliad cerddorol.
- Symudiad sy'n defnyddio ffurfiau neu arddulliau confensiynol.
- Symudiad sy'n defnyddio arddull gyfoes benodedig.

Dylai'r cyfansoddiadau arddangos:

- datblygiad syniadau cerddorol
- dealltwriaeth am gydbwysedd, ffurf a strwythur
- defnydd priodol o leisiau, offerynnau a/neu seiniau wedi'u syntheseiddio
- sensitifrwydd o ran ansawdd a gwead
- cysondeb arddull
- gwybodaeth dechnegol am y cyfrwng a ddefnyddiwyd
- dealltwriaeth briodol am harmoni

- (i) **Cyfansoddiad 1:** cyfansoddiad 'arddull' sy'n dangos dealltwriaeth o iaith gerddorol Traddodiad Clasurol y Gorllewin.

Bwriedir y cyfansoddiad 'arddull' gofynnol er mwyn annog ymgeiswyr i ymgyfarwyddo â nodweddion arddulliol a chyfansoddol Traddodiad Clasurol y Gorllewin. Wrth i ymgeiswyr astudio'r gwaith gosod yn drylwyrach ar gyfer MU6, fe'u hanogir i adnabod dyfeisiau a thechnegau priodol y gellir efallai eu cynnwys a'u datblygu yn eu cyfansoddiadau eu hunain i greu canlyniad cyson o fewn idiom donawl gydnabyddedig.

Mae gofyn i ymgeiswyr ddangos rheolaeth dechnegol a dealltwriaeth gyffredinol dros yr elfennau cerddorol, gan wneud defnydd creadigol o'r dyfeisiau cyfansoddi priodol, confensiynau ac adnoddau a welir yn Nhraddodiad Clasur y Gorllewin.

Bydd y modiwl MU5 yn rhoi cyfle i adeiladu ar y ddealltwriaeth gerddorol a ddysgwyd ac a ddefnyddiwyd gynt yn MU2. Dylai ymgeiswyr ddangos eu gwybodaeth gerddorol ehangach drwy gyflwyno cyfansoddiad sydd â mwy o swmp a sylwedd iddo, gan adlewyrchu eu profiad cynyddol o wrando ac o berfformio. Mae angen iddynt arddangos defnydd o eirfa gerddorol ehangach, dangos dealltwriaeth clir am gyrhaeddiadau offerynnau ac o leisiau, a phrofi rheolaeth feddylgar dros ddilyniannau harmonig a gwadau.

Fel canllaw, gall ymgeiswyr ddewis cyfansoddi ar gyfer un o'r canlynol:

- cyfansoddiad ar gyfer allweddell unawdol/piano, neu gitar
- cyfansoddiad ar gyfer offeryn unawdol a chyfeiliant
- cyfansoddiad ar gyfer llais unawdol a chyfeiliant
- deuawd/triawd/pedwarawd ar gyfer offerynnau
- deuawd/triawd/pedwarawd ar gyfer lleisiau
- cyfansoddiad ar gyfer cerddorfa/ensemble mawr
- cyfansoddiad ar gyfer ensemble llinynnol/pres/chwythbren
- cyfansoddiad ar gyfer côr a chyfeiliant

Efallai yr hoffai ymgeiswyr ystyried rhai o'r nodweddion cerddorol canlynol:

Adeiledd /Trefniadaeth	Dyfeisiau / Datblygu syniadau	Cyweiredd / Harmoni
ffurf ddwyran ffurf deiran ffurf ritornello ostinato grwndfas ffurf da capo ffurf stroffig	cydbwysedd melodig a brawddegau efelychiant dilyniannau croesacen amrywiaeth rhythmig galwad ac ateb nodau pedal haenau o syniadau cerddorol syniadau gwrthgyferbyniol amrywiaeth gwedd ehangu deunyddiau datblygiad motifau	Cyweiriau mwyaf Cyweiriau lleiaf harmonïau deiatonig cordiau a'u gwrthdro seithfedau ar y llywydd trawsgyweiriad i'r llywydd trawsgyweiriad i'r cywair perthynol lleiaf dilyniannau cordiau diweddebau rhythmau harmonig nodau camu nodau tonnog nodau anhepgor/hepgor
ffurf sonata thema ac amrywiadau cyfansoddi di- dor cerddoriaeth destunol	gwrthdroi syniadau ffiwgaidd/gwrthbwynt estyniad cywasgiad olrediad datblygiad atganol	seithfedau deiatonig cylch o bumedau harmonï cromataidd anghytgordiau'r llywydd uwch trawsgyweirio i amrywiaeth o gyweiriau perthynol gohiriannau

(ii) **Cyfansoddiad 2:** cyfansoddiad sy'n dangos ac yn adlewyrchu dealltwriaeth am iaith gerddorol yr 20^{fed} / 21^{ain} ganrif.

Y bwriad yma yw annog ymgeiswyr i ymgysgu ac i arbrofi â nodweddion arddulliol a chyfansoddiadol y 20^{fed} / 21^{ain} ganrif. Wrth i ymgeiswyr astudio'r gwaith gosod yn drylwyrach ar gyfer MU6, ynghyd â'u gwaith paratoi ar gyfer Papur 1 o'r prawf gwerthuso, anogir ymgeiswyr i ganfod dyfeisiau a thechnegau priodol y gellir hwyrach eu cynnwys a'u datblygu yn eu cyfansoddiadau eu hunain i greu canlyniad dychmygus, sylweddol a chyson.

Gellir ysgrifennu'r cyfansoddiad ar gyfer unrhyw ensemble neu gyfuniad o darddseiniau lle bo hynny'n addas.

Tra bo modd defnyddio rhai o'r dyfeisiau sy'n gysylltiedig â Thraddodiad Clasur y Gorllewin yn y cyfansoddiad hwn, dylai ymgeiswyr hefyd ystyried yr enghreifftiau ychwanegol isod sy'n adlewyrchu'r 20^{fed} ganrif.

ArddulliauStyles	Nodweddion Cyfansoddi/Dyfeisiau
Argraffiadaeth	Er enghraifft: graddfeydd tonau cyfan a chromatig, cordiau cyfochrog, cordiau'r nawfed, rhythmau llyfn, sgorio lliwgar a chyfoethog, anghytseiniau heb eu hadfer, defnydd o rythmau rhydd, ffurfiau testunol bychain.
Cenedlaetholdeb	Er enghraifft: adlewyrchiadau gwladgarol a diwylliannol, dylanwad llên a chaneuon gwerin, ffurfiau a syniadau testunol.
Neo-Glasuriaeth	Er enghraifft: defnydd o gerddoriaeth absoliwt, sylw i grefftoriaeth a chydbwysedd ffurfiau ac adeileddau, technegau ffiwgaidd a gwrthbwyntiol a ddylanwadwyd gan gyfnodau'r Baroc a Chlasur.
Mynegiadaeth	Er enghraifft: technegau cyfresol a'r raddfa ddeuddeg tôn, anghydseindedd, rhythmau a mesurau afreolaidd, alawon onglog a rhestrau eithaf, digyweiredd.
Minimaliaeth	Er enghraifft: undod cyflawn, plethiad rhythmig, cydweddiad, triniaeth dychmygus a chymwys o gelloedd melodig.
Jazz	Er enghraifft: arddulliau croesacennog a byfyfyr, nodweddion y 'blues', cordiau jazz cymhleth, cordiau homoffonig bachod, rhythmau swing, defnydd o linellau bâs arddulliol, traciau rhythmig, 'fills' addas, syniadau cyfalawol a chyfeiliol.

Nodweddion cerddorol cyffredinol i'w hystyried:

- Offeryniaeth - estynedig, mwy o gyferbyniaeth, grwpiau anarferol
- Timbres – effeithiau arbrofol, gyda chyfarwyddiadau perfformio gorfawl
- Gweadau – eang ar adegau, ymestynedig; yn wrthgyferbyniol, yn aml yn gymhleth, antiffoniaidd, poliffonig
- Harmoni – anghytseindedd a chromatiaeth eithaf, â symudiad llinol yn lle syniadaeth gordiol, nodweddion moddol yn cael eu hymgorffori weithiau, syniadaeth newydd o harmoni i gynnwys policordiau, poligyweiredd, digyweiredd
- Alaw – onglog a motifaidd, gyda rhestrau eithaf, syniadau a phatrymau cyfyngol
- Rhythm – cymhleth, afreolaidd, acenion symudol, croesacen.

Gall ymgeiswyr hefyd ddewis adlewyrchu arddulliau cerddorol megis Roc, Pop a Sioeau Cerdd.

(iii) **Cyfansoddiad 3:** Cyfansoddiad rhydd

Mae gofyn i ymgeiswyr gyfansoddi darn o gerddoriaeth a fyddai 6-8 munud o hyd. Gall ymgeiswyr ddewis eu briff, eu harddull gyfansoddi a'u hadnoddau eu hunain i greu canlyniad sylweddol, dychmygus ac arbrofol. Fel arall, gall y cyfansoddiad gael ei symbylu gan rhyw agwedd(au) o'r gweithiau gosod dewisedig, **neu** gall ymgeiswyr ddefnyddio'r opsiwn estynedig hwn fel cyfle i gysylltu eu syniadau a thechnegau cyfansoddi â Maes Astudio nad oeddent wedi'i astudio yn ystod y cwrs. Efallai y bydd ymgeiswyr hefyd am ymateb i drydydd comisiwn allan o'r rhestr uchod.

Gall cyfansoddiadau gael eu cyflwyno naill ai ar gasét, CD neu MD.

Rhaid recordio pob cyfansoddiad, a'i gyflwyno gyda sgôr a fo'n briodol i'r nodiant.

Rhaid i recordiad heb sgôr draddodiadol gynnwys ffurflen â holl fanylion y broses gyfansoddi arni, gan ddangos yn gwbl eglur amcanion y cyfansoddwr, manylion cerddorol y cyfansoddiad, a disgrifiad o'r arwyddion perfformio ar gyfer datganiad difyfyfyr o'r darn.

Rhaid i bob cyfansoddiad gynnwys crynodeb o'r symbyliad gwreiddiol, a disgrifiad o'r broses o gyfansoddi a'r technegau cerddorol a ddefnyddiwyd. Darperir ffurflen briodol ar gyfer y wybodaeth hon gan CBAC.

Rhaid i ymgeiswyr gyflwyno'r cyfansoddiadau erbyn dyddiad penodol ym mis Mai i'w marcio gan CBAC.

Mae meini prawf asesu wedi'u darparu ar gyfer athrawon.

4.6 MU6 (A) Gwerthuso**15%**

Arholiad 2¼ awr mewn dwy ran, Rhan 1 a 2, fydd yr asesiad allanol. Gosodir y cwestiynau gan CBAC a bydd y dyfyniadau cerddorol angenrheidiol yn cael eu recordio ar Gryno Ddisg. Cynhelir yr arholiad ar ddyddiad penodol ym mis Mai/Mehefin.

Maes Astudio 3: Cerddoriaeth yn yr 20^{fed} / 21^{ain} Ganrif

Mae angen dealltwriaeth eang o'r arddulliau amrywiol yng Ngherddoriaeth Gelf y Gorllewin yn yr 20^{fed} / 21^{ain} Ganrif:

- Cenedlaetholdeb (e.e. Bartok)
- Argraffiadaeth (e.e. Debussy)
- Neo-glasuriaeth (e.e. Stravinsky)
- Mynegiadaeth (e.e. Schoenberg)
- Minimaliaeth (e.e. Philip Glass).

Yn ogystal, mae gofyn i ymgeiswyr ddefnyddio'r wybodaeth a enillwyd trwy astudio'r uchod ar gyfer arddulliau eraill o gerddoriaeth yn yr 20^{fed} / 21^{ain} Ganrif, megis:

- Cerddoriaeth electronig
- Cerddoriaeth aleatorig
- sioeau cerdd
- jazz, roc a phop.

Bydd gofyn hefyd i ymgeiswyr astudio gwaith gosod o'r 20^{fed} ganrif

Rhan 1 Dirnadaeth Glywedol ac Arddull

Mae'r rhan hon yn cynnwys arholiad gwrando 45 munud yn seiliedig ar ddyfyniadau o gerddoriaeth barod **anghyfarwydd** o'r 20^{fed} / 21^{ain} ganrif (**Maes Astudio 3: Cerddoriaeth yn yr 20^{fed} / 21^{ain} Ganrif**) yn cwmpasu'r meysydd a restrir uchod. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr arddangos dirnadaeth glywedol fwy trylwyr na'r hyn a ddisgwylir yn MU3.

Bydd y tri chwestiwn cyntaf yn cynrychioli idiomau ac arddulliau gwahanol. Chwaraeir pob darn deirgwaith gyda seibiau pwrpasol er mwyn i'r ymgeiswyr gynnig eu hatebion. Ni fydd dewis cwestiynau. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr:

- wneud cysylltiadau rhwng cerddoriaeth â'i chyd-destun;
- wneud cysylltiadau rhwng gwahanol feysydd gwybodaeth ac agweddau gwahanol ar weithgareddau cerddorol;
- gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth am gerddoriaeth anghyfarwydd.

Yn y darn olaf, a chwaraeir **bum** gwaith, mae'n ofynnol i ymgeiswyr:

- gwblhau'r traw a'r rhythm coll ar sgôr sgerbwdd
- adnabod cordiau a diweddebau;
- enwi trawsgyweiriau;
- darganfod a chywiro hyd at bedwar camgymeriad traw a rhythm.

Rhan 2 Astudiaeth Hanesyddol a Dadansoddol

Mae'r rhan hon yn cynnwys arholiad gwranddo ac ysgrifenedig 1½ awr o hyd wedi'i seilio ar y gwaith gosod a ddewiswyd. Bydd y cwestiynau'n canolbwyntio ar agweddau arddulliol o'r gwaith gosod, er enghraifft, harmoni, cyweiredd, offeryniaeth, ffurf a gwedd

Bydd gofyn i ymgeiswyr ateb dau gwestiwn, gan ddewis o (a) neu (b) neu (c) allan o'r rhestr isod:

(a) *Ravel – Concerto yn G fwyaf i'r piano* ynghyd ag astudiaeth o gerddoriaeth gerddorfaol

neu

(b) *Shostakovich Pedwarawd Llinynnol rhif.8* ynghyd ag astudiaeth o gerddoriaeth siambr.

neu

(c) *William Mathias – This Worlde's Joie (Rhannau Un, Tri a Phedwar)* ynghyd ag astudiaeth o gerddoriaeth leisiol

Bydd **Cwestiwn un** ym mhob achos yn golygu bod ymgeiswyr yn gwranddo ar ddyfyniadau o'r gwaith gosod o'u dewis ar Gryno Ddisg. Mae'n ofynnol iddynt gymhwyso'r wybodaeth a enillwyd trwy astudiaeth fanwl o'r gwaith gosod o'u dewis ac ymateb yn llawn i'r cwestiynau a osodwyd.

Yng **Nghwestiwn 2** bydd gofyn i ymgeiswyr lunio traethawd a fydd, ym mhob achos, yn canolbwyntio ar ddatblygiad y ffurf ac ar adnabyddiaeth o'r dylanwadau sy'n cynnal parhad ac yn achosi newid, gan osod y gwaith gosod mewn perspectif cerddorol ehangach.

Mae hawl gan yr ymgeiswyr fynd â sgôr glân o'r gwaith gosod penodedig i mewn i'r ystafell arholiad. Rhaid dileu nodiadau dadansoddiadol printiedig.

Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr arddangos cynnydd yn nhrylwyredd eu hastudiaeth ym **Maes Astudio 1 (Traddodiad Clasur y Gorllewin)**.

Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr arddangos eu gallu mewn cyfathrebu ysgrifenedig yn y papur hwn lle mae gofyn iddynt gynhyrchu deunydd ysgrifenedig estynedig: Mae'r cynlluniau marcio ar gyfer yr unedau hyn yn cynnwys y meini prawf penodol canlynol ar gyfer asesu cyfathrebu ysgrifenedig.

- darllenadwyedd y testun; cywirdeb y sillafu, atalnodi a gramadeg; eglurder ystyr;
- dethol ffurf ac arddull ysgrifennu sy'n briodol i'r pwrpas ac i gymhlethdod y deunydd pwnc;
- trefnu'r wybodaeth yn glir ac yn gydlynol; defnyddio geirfa arbenigol lle bo hynny'n briodol.

4.6.1 MU6 (B) Gwerthuso**20%**

Arholiad 3 awr mewn tair rhan, Rhan 1,2 a 3, fydd yr asesiad allanol. Gosodir y cwestiynau gan CBAC a bydd y dyfyniadau cerddorol angenrheidiol yn cael eu recordio ar Gryno Ddisg. Cynhelir yr arholiad ar ddyddiad penodol ym mis Mai/Mehefin.

Maes Astudio 3: Cerddoriaeth yn yr 20^{fed} / 21^{ain} Ganrif

Mae angen dealltwriaeth eang o'r arddulliau amrywiol yng Ngherddoriaeth Gelf y Gorllewin yn yr 20^{fed} / 21^{ain} Ganrif:

- Cenedlaetholdeb (e.e. Bartok)
- Argraffiadaeth (e.e. Debussy)
- Neo-glasuriaeth (e.e. Stravinsky)
- Mynegiadaeth (e.e. Schoenberg)
- Minimaliaeth (e.e. Philip Glass).

Yn ogystal, bydd gofyn i ymgeiswyr ddefnyddio'r wybodaeth a enillwyd trwy astudio'r uchod ar gyfer arddulliau eraill o gerddoriaeth yr 20^{fed} / 21^{ain} Ganrif, megis:

- Cerddoriaeth electronig
- Cerddoriaeth aleatorig
- sioeau cerdd
- jazz, roc a phop.

Bydd gofyn hefyd i ymgeiswyr astudio gwaith gosod o'r 20^{fed} ganrif

Rhan 1 Dirnadaeth Glywedol ac Arddull

Mae'r rhan hon yn cynnwys arholiad gwrando 45 munud o hyd wedi'i seilio ar ddyfyniadau o gerddoriaeth barod **anghyfarwydd** o'r 20^{fed} / 21^{ain} ganrif (**Maes Astudio 3: Cerddoriaeth yn yr 20^{fed} / 21^{ain} Ganrif**) yn cwmpasu'r meysydd a restrir uchod. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr arddangos dirnadaeth glywedol fwy trylwyr na'r hyn a ddisgwylir yn MU3.

Bydd y tri chwestiwn cyntaf yn cynrychioli idiomau ac arddulliau gwahanol. Chwaraeir pob darn deirgwaith gyda seibiau pwrpasol er mwyn i'r ymgeiswyr gynnig eu hatebion. Ni fydd dewis cwestiynau. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr:

- wneud cysylltiadau rhwng cerddoriaeth â'i chyd-destun;
- gwneud cysylltiadau rhwng gwahanol feysydd gwybodaeth ac agweddau gwahanol ar weithgareddau cerddorol;
- defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth am gerddoriaeth anghyfarwydd.

Yn y darn olaf, a chwaraeir **bum** gwaith, mae'n ofynnol i ymgeiswyr :

- gwblhau'r traw a'r rhythm coll ar sgôr sgerbwdd
- adnabod cordiau a diweddebau;
- enwi trawsgyweiriau;
- darganfod a chywiro hyd at bedwar camgymeriad traw a rhythm.

Rhan 2 Astudiaeth Hanesyddol a Dadansoddol

Mae'r rhan hon yn cynnwys arholiad gwranddo ac ysgrifenedig 1½ awr o hyd wedi'i seilio ar y gwaith gosod a ddewiswyd. Bydd y cwestiynau'n canolbwyntio ar agweddau arddulliol a dadansoddiad manwl o'r gwaith gosod, er enghraifft, rhythm, harmoni, cyweiredd, offeryniaeth, ffurf a gwead

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ateb dau gwestiwn, gan ddewis o (a) neu (b) neu (c) allan o'r rhestr isod:

(a) *Ravel – Concerto yn G fwyaf i'r piano* ynghyd ag astudiaeth o gerddoriaeth gerddorfaol

neu

(b) *Shostakovich Pedwarawd Llinynnol rhif.8* ynghyd ag astudiaeth o gerddoriaeth siambr.

neu

(c) *William Mathias – This Worlde's Joie (Rhannau Un, Tri a Phedwar)* ynghyd ag astudiaeth o gerddoriaeth leisiol

Bydd **Cwestiwn un** ym mhob achos yn golygu bod ymgeiswyr yn gwranddo ar ddyfyniadau o'r gwaith gosod o'u dewis ar Gryno Ddisg. Mae'n ofynnol iddynt gymhwyso'r wybodaeth a enillwyd trwy astudiaeth fanwl o'r gwaith gosod dewisedig ac ymateb yn llawn i'r cwestiynau a osodwyd.

Yng **Nghwestiwn dau** i ymgeiswyr lunio traethawd a fydd, ym mhob achos, yn canolbwyntio ar ddatblygiad y ffurf ac ar adnabyddiaeth o'r dylanwadau sy'n cynnal parhad ac yn achosi newid, gan osod y gwaith gosod mewn perspectif cerddorol ehangach.

Mae hawl gan yr ymgeiswyr fynd â sgôr glân o'r gwaith gosod penodedig i mewn i'r ystafell arholiad. Rhaid dileu nodiadau dadansoddiadol printiedig.

Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr arddangos cynnydd yn nhrylwyredd eu hastudiaeth ym **Maes Astudio 1 (Traddodiad Clasur y Gorllewin)**.

Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr arddangos eu gallu mewn cyfathrebu ysgrifenedig yn y papur hwn lle mae gofyn iddynt gynhyrchu deunydd ysgrifenedig estynedig: Mae'r cynlluniau marcio ar gyfer yr unedau hyn yn cynnwys y meini prawf penodol canlynol ar gyfer asesu cyfathrebu ysgrifenedig.

- darllenadwyedd y testun; cywirdeb y sillafu, atalnodi a gramadeg; eglurder ystyr;
- dethol ffurf ac arddull ysgrifennu sy'n briodol i'r pwrpas ac i gymhlethdod y deunydd pwnc;
- trefnu'r wybodaeth yn glir ac yn gydlynol; defnyddio geirfa arbenigol lle y bo hynny'n briodol.

Rhan 3 Astudiaeth estynedig 5%

Mae'r rhan hon yn cynnwys papur arholiad ysgrifenedig 45 munud o hyd. Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr lunio traethawd yn ateb un cwestiwn a fydd, ym mhob achos, yn canolbwyntio ar arddull gerddorol gyffredinol a chynnyrch un o gyfansoddwyr y gwaith gosod – naill ai Ravel neu Shostakovich neu William Mathias.

Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr arddangos eu gallu mewn cyfathrebu ysgrifenedig yn y papur hwn lle mae gofyn iddynt gynhyrchu deunydd ysgrifenedig estynedig: Mae'r cynlluniau marcio ar gyfer yr unedau hyn yn cynnwys y meini prawf penodol canlynol ar gyfer asesu cyfathrebu ysgrifenedig.

- darllenadwyedd y testun; cywirdeb y sillafu, atalnodi a gramadeg; eglurder ystyr;
- dethol ffurf ac arddull ysgrifennu sy'n briodol i'r pwrpas ac i gymhlethdod y deunydd pwnc;
- trefnu'r wybodaeth yn glir ac yn gydlynol; defnyddio geirfa arbenigol lle y bo hynny'n briodol.

5

CYNLLUN ASESU

Bydd cymwysterau Uwch Gyfrannol a Safon Uwch ar gael i ymgeiswyr sy'n dilyn y fanyleb hon.

UG

Hanner cyntaf y cwrs Safon Uwch yw'r UG. Bydd yn cyfrannu 50% o'r cyfanswm marciau Safon Uwch. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gwblhau'r **tair uned** ganlynol er mwyn ennill cymhwyster UG.

		Pwysiad o fewn UG	Pwysiad o fewn Safon Uwch
MU1	Perfformio	30%	15%
MU2	Cyfansoddi	30%	15%
MU3	Gwerthuso	40%	20%

MU1: Arholiad Perfformio

Perfformiad Unawdol a/neu ensemble

- Dylai'r perfformiad fod rhwng 8-10 munud o hyd
- Dylai un darn adlewyrchu maes astudio dewisedig
- Aseiad gan arholwr allanol

MU2: Cyfansoddi (Aseiad Mewnol)

Dau ddarn gwrthgyferbyniol

- Dylai cyfanswm perfformio'r cyfansoddiadau fod rhwng 4 ac 8 munud o hyd
- Un cyfansoddiad yn arddangos y technegau a'r confensiynau sy'n gysylltiedig â Thraddodiad Clasurol y Gorllewin
- Un cyfansoddiad rhydd
- Aseiad mewnol a'i safoni'n allanol

MU3: Arholiad Gwerthuso (2 awr)

Un arholiad gwrando mewn dwy ran

- Rhan 1: (12%): prawf **gwerthuso** 1 awr o hyd yn seiliedig ar ddyfyniadau o gerddoriaeth (gweithiau gosod) o'r ddau Faes Astudio a ddewiswyd gan y ganolfan i'w hastudio
- Rhan 2: (8%): prawf 1 awr **dirnadaeth glywedol** (arddyweddiad melodig, cyweirnodau, cordiau, diweddebau, wedi'i seilio a ddyfyniadau cerddorol heb eu paratoi

Uwch

Mae'r fanyleb Safon Uwch mewn dwy ran: Rhan 1 (UG) a Rhan 2 (U2)

Gellir sefyll Rhan 1 (Uwch Gyfrannol) ar wahân, a'i ychwanegu at yr U2 er mwyn sicrhau cymhwyster Uwch, neu fel arall, gellir sefyll yr arholiadau UG ac U2 gyda'i gilydd yn yr un sesiwn.

Disgwylir i ymgeiswyr gwblhau'r unedau UG uchod yn ogystal â thair uned ychwanegol er mwyn cwblhau cwrs Cerddoriaeth Safon Uwch.

Bydd yr unedau U2 yn cyfrannu 50% o'r cyfanswm marciau Safon Uwch.

		Pwysiad o fewn UG	Pwysiad o fewn Safon Uwch
MU4*	Perfformio	30-40%+	15-20%+
MU5*	Cyfansoddi	30-40%+	15-20%+
MU6*	Gwerthuso	30-40%+	20-20%+

*yn cynnwys asesiad synoptig + Ymgeiswyr i ddewis 2 uned o 15% ac 1 uned o 20%

Naill ai MU4(A) Arholiad Perfformio

15%

Unawd a/neu berfformiad ensemble

- Dylai'r perfformiad fod rhwng 10-12 munud o hyd
- Dylai un darn adlewyrchu'r maes astudio newydd (*Cerddoriaeth yr 20^{fed} a'r 21^{ain} ganrif*)
- Asesiad gan arholwr allanol

Neu MU4(B) Arholiad Perfformio

20%

Unawd a/neu berfformiad ensemble

- Dylai'r perfformiad fod rhwng 16-18 munud o hyd
- Dylai un darn adlewyrchu'r maes astudio newydd (*Cerddoriaeth yr 20^{fed} a'r 21^{ain} ganrif*)
- Dylai un darn adlewyrchu'r maes astudio arall
- Asesiad gan arholwr allanol

Naill ai MU5(A) Cyfansoddi

15%

Dau ddarn gwrthgyferbyniol

- Dylai cyfanswm perfformio'r ddau gyfansoddiad fod rhwng 6 ac 10 munud o hyd
- Un cyfansoddiad yn arddangos y technegau a'r confensiynau sy'n gysylltiedig â Thraddodiad Clasuroly y Gorllewin (Parhad o Faes Astudio UG)
- Un cyfansoddiad yn adlewyrchu'r maes astudio newydd (*Cerddoriaeth yr 20^{fed} a'r 21^{ain} ganrif*)
- Asesiad athro a'u marcio'n allanol

Neu MU5(B) Cyfansoddi 20%

Tri darn gwrthgyferbyniol

- Dylai cyfanswm perfformio'r tri chyfansoddiad fod rhwng 12 ac 18 munud o hyd
- Cyfansoddiad yn arddangos y technegau a'r confensiynau cerddorol sy'n gysylltiedig â Thraddodiad Clasurol y Gorllewin
- Un cyfansoddiad yn adlewyrchu'r maes astudio newydd (*Cerddoriaeth yr 20^{fed} a'r 21^{ain} ganrif*)
- Un cyfansoddiad rhydd arbrofol
- Asesiad athro a'u marcio'n allanol

Naill ai MU6(A) Arholiad Gwerthuso (2¼ awr) 15%

Un arholiad ysgrifenedig mewn **dwyr** ran (2 ¼ awr)

- Rhan 1: (6%) : arholiad **gwrando** ¾ awr o hyd wedi'i seilio ar ddyfyniadau o gerddoriaeth anghyfarwydd o'r 20^{fed} / 21^{ain} ganrif (maes astudio newydd)
- Rhan 2 : (9%): arholiad **gwrando / ysgrifenedig** 1½ awr o hyd yn gofyn i ymgeiswyr ddadansoddi darn gosod a'i osod mewn cyd-destun cerddorol ehangach

Neu MU6(B): Arholiad Gwerthuso (3 awr) 20%

Un arholiad ysgrifenedig mewn **tair** rhan (3 awr)

- Rhan 1: (6%) : arholiad **gwrando** ¾ awr o hyd wedi'i seilio ar ddyfyniadau o gerddoriaeth anghyfarwydd o'r 20^{fed} / 21^{ain} ganrif (maes astudio newydd)
- Rhan 2 : (9%): arholiad **gwrando / ysgrifenedig** 1½ awr o hyd yn gofyn i ymgeiswyr ddadansoddi darn gosod a'i osod mewn cyd-destun cerddorol ehangach
- Rhan 3 : (5%): arholiad **ysgrifenedig** ¾ awr o hyd yn gofyn i ymgeiswyr arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o arddull gyffredinol a chynnyrch un o gyfansoddwyr y gweithiau gosod

Asesiad Synoptig

Mae asesiad synoptig, sy'n profi dealltwriaeth ymgeiswyr o'r cysylltiadau rhwng gwahanol elfennau'r pwnc a'u dealltwriaeth gyfannol o'r pwnc, yn un o'r gofynion ym mhob manyleb Safon Uwch. Mae natur y pwnc yn ôl y modd y'i hadlewyrchir yn y fanyleb hon yn golygu fod elfennau synoptig yn bresennol drwy gydol y cwrs pa le bynnag y'u hasesir. Ond yng nghyd-destun cerddoriaeth, adnabyddir yr asesiad synoptig yn ffurfiol trwy gyfrwng

- gwneud cysylltiadau rhwng agweddau gwahanol gweithgareddau cerddorol; e.e. cysylltu cerddoriaeth, na chafodd ei chlywed o'r blaen, ag arddulliau, genres, a thraddodiadau a brofwyd mewn cyfres o weithgareddau cerddorol, ffurfio barn yn seiliedig ar adnabyddiaeth o nodweddion cerddorol sy'n arwydd o arddull ddiwylliannol arbennig (MU6)
- cymhwysu'r sgiliau cerddorol, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a ddisgrifiwyd yn y nodau asesu, am gerddoriaeth anghyfarwydd. e.e. perfformio cerddoriaeth gydag ymwybyddiaeth o gonfensiynau arddulliol a dylanwadau cyd-destunol a rheolaeth dechnegol a mynegiannol (MU4)
- arddangos dirnadaeth glywedol ac arddull wahaniaethol: e.e. creu cyfansoddiad gyda briff clir a phendant, sy'n cyfeirio at ddefnydd ac at ddewis o adnoddau, nodweddion adeileddol a dylanwadau cyd-destunol, ynghyd ag esboniad yn disgrifio'r broses o gyfansoddi (MU5)

Ansawdd y Cyfathrebu Ysgrifenedig

Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr arddangos eu gallu mewn cyfathrebu ysgrifenedig yn uned asesu **MU6 (Rhan 2)** lle mae gofyn iddynt gynhyrchu deunydd ysgrifenedig estynedig. Mae'r cynlluniau marcio ar gyfer yr unedau hyn yn cynnwys y meini prawf penodol canlynol ar gyfer asesu cyfathrebu ysgrifenedig.

- darllenadwyedd y testun; cywirdeb y sillafu, atalnodi a gramadeg; eglurder ystyr;
- dethol ffurf ac arddull ysgrifennu sy'n briodol i'r pwrpas ac i gymhlethdod y deunydd pwnc;
- trefnu'r wybodaeth yn glir ac yn gydlynol; defnyddio geirfa arbenigol lle y bo hynny'n briodol.

Darpariaeth yr Unedau

Darpariaeth yr Unedau Asesu				
Unit	Ionawr 2009	Mehfin 2009	Ionawr 2010 a phob blwyddyn ddilynol	Mehfin 2010 a phob blwyddyn ddilynol
MU1		✓		✓
MU2		✓		✓
MU3		✓		✓
MU4				✓
MU5				✓
MU6				✓

Dyfarnu, Adrodd ac Ail-sefyll

Bydd y graddau cyffredinol ar gyfer y cymwysterau TAG Uwch Gyfrannol ac Uwch mewn Cerddoriaeth yn cael eu cofnodi fel gradd ar y raddfa A i E. Bydd y graddau cyffredinol ar gyfer y cymwysterau TAG Uwch mewn Cerddoriaeth yn cael eu cofnodi fel gradd ar y raddfa A* i E. Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer gradd yn cael eu cofnodi â'r llythyren U (annosbarthedig). Bydd canlyniadau uned unigol a'r dyfarniad pwnc cyffredinol yn cael eu mynegi fel marc unffurf ar raddfa sy'n gyffredin i bob cymhwyster TAG (gweler y tabl isod). Nodir y cywerthedd gradd â llythyren fach ((a) i (e)) ar y slipliau canlyniad, ond nid ar y tystysgrifau:

	GMU Uchaf	A	B	C	D	E
Uned 1 (pwysiad 15%)	90	72	63	54	45	36
Uned 2 (pwysiad 15%)	90	72	63	54	45	36
Uned 3 (pwysiad 20%)	120	96	84	72	60	48
Uned 4 (pwysiad 15-20%)	90-120	72-96	63-84	54-72	45-60	36-48
Uned 5 (pwysiad 15-20%)	90-120	72-96	63-84	54-72	45-60	36-48
Uned 6 (pwysiad 15-20%)	90-120	72-96	63-84	54-72	45-60	36-48
Cymhwyster UG	300	240	210	180	150	120
Cymhwyster U	600	480	420	360	300	240

Ar Safon Uwch, dyfernir Gradd A* i ymgeiswyr sydd wedi ennill Gradd A yn y cymhwyster Safon Uwch cyffredinol a 90% o gyfanswm y marciau unffurf ar gyfer yr unedau U2.

Gall ymgeiswyr ailsefyll yr unedau cyn yr ardystio ar gyfer y cymhwyster, a'r canlyniad gorau a ddefnyddir ar gyfer dyfarnu'r cymhwyster. Bydd oes y canlyniadau uned unigol, cyn ardystio'r cymhwyster, ond yn cael ei chyfyngu gan oes y fanyleb ei hun.

6

SGILIAU ALLWEDDOL

Mae Sgiliau Allweddol yn ganolog i astudio Cerddoriaeth ar gyfer UG a Safon Uwch, a gellir eu hasesu trwy gynnwys y cwrs a'r cynllun asesu perthnasol fel y'u diffinnir yn y fanyleb. Gellir datblygu'r sgiliau allweddol canlynol trwy gyfrwng y fanyleb hon ar lefel 3:

- Cyfathrebu
- Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
- Datrys Problemau
- Gweithio gydag Eraill
- Gwella Eich Dysgu a'ch Perfformiad Eich Hun

Darperir cyfleoedd i olrhain datblygiad y sgiliau hyn yn erbyn y gofynion tystiolaeth Sgiliau Allweddol yn yr 'Enghreifftio Sgiliau Allweddol ar gyfer Cerddoriaeth, sydd ar gael ar wefan CBAC.

7 DISGRIFIADAU PERFFORMIO

Cyflwyniad

Mae disgrifiadau perfformiad wedi'u creu ar gyfer pob pwnc TAG. Maent yn disgrifio'r canlyniadau dysgu a'r lefelau cyrhaeddiad sy'n debygol o gael eu dangos gan ymgeisydd nodweddiadol sy'n perfformio ar y ffiniau A/B ac E/U ar gyfer UG ac U2.

Yn ymarferol bydd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn dangos proffiliau anghyson ar draws y cyraeddiadau a restrir, gyda chryfderau mewn rhai meysydd yn cydbwysu yn y broses ddyfarnu wendidau neu wallau mewn lleoedd eraill. Mae'r Disgrifiadau perfformiad yn dangos y disgwyliadau ar y ffiniau A/B ac E/U ar gyfer UG ac U2 yn eu cyfanrwydd; nid ydynt wedi'u hysgrifennu ar lefel yr unedau.

Dylid gosod y ffiniau rhwng graddau A/B ac E/U gan ddefnyddio barn broffesiynol. Dylai'r farn adlewyrchu ansawdd gwaith yr ymgeiswyr, a chael ei chefnogi gan y dystiolaeth dechnegol ac ystadegol sydd ar gael. Nod y disgrifiadau perfformiad yw helpu'r arholwyr i ddefnyddio eu barn broffesiynol. Dylid eu dehongli a'u cymhwyso yng nghyd-destun manylebau unigol a'u hunedau cysylltiedig. Fodd bynnag, ni fwriedir i ddisgrifiadau perfformiad ddiffinio cynnwys manylebau ac unedau.

Bodlonir y gofyniad ar i bob manyleb UG ac Uwch asesu ansawdd cyfathrebu ysgrifenedig yr ymgeiswyr trwy un neu ragor o'r amcanion asesu.

Disgrifiadau perfformiad UG ar gyfer Cerddoriaeth

	Amcan Asesu 1	Amcan Asesu 2	Amcan Asesu 3
Amcanion Asesu	Dylai ymgeiswyr allu: dehongli syniadau cerddorol gyda rheolaeth dechnegol yn llawn mynegiant ynghyd ag ymdeimlad o arddull ac ymwybyddiaeth o'r achlysur a/neu ensemble.	Dylai ymgeiswyr allu: datblygu syniadau cerddorol gyda rheolaeth dechnegol yn llawn mynegiant gan ddefnyddio dyfeisiau a chonfensiynau mewn modd creadigol.	Dylai ymgeiswyr allu: Arddangos dealltwriaeth am agweddau adeileddol, mynegiant a chyd-destunol cerddoriaeth a sôn yn braff amdanynt.
A/B disgrifiadau perfformiadau ffiniol	Yn nodweddiadol bydd ymgeiswyr yn gallu: a) cyflwyno perfformiadau cerddorol sy'n argyhoeddi, yn llyfn, ac yn dangos dealltwriaeth gerddorol.	Yn nodweddiadol bydd ymgeiswyr yn gallu: a) cynhyrchu cyfansoddiadau trefnus sy'n dangos y gallu i drafod syniadau cerddorol, gan ddefnyddio dyfeisiau a chonfensiynau cerddorol mewn perthynas a'r arddull, y genre a'r traddodiad dewisedig.	Yn nodweddiadol bydd ymgeiswyr yn gallu: a) cynnig barn bersonol ar gerddoriaeth a glywir, a dangos dealltwriaeth eang ar draws y genres, yr arddulliau a'r traddodiadau a astudiwyd.
E/U disgrifiadau perfformiadau ffiniol	Yn nodweddiadol bydd ymgeiswyr yn gallu: a) perfformio gydag ymdeimlad o barhad gan ddefnyddio tempi addas a dangos rhywfaint o ddealltwriaeth am y gerddoriaeth a ddewiswyd.	Yn nodweddiadol bydd ymgeiswyr yn gallu: a) Cynhyrchu cyfansoddiadau sy'n defnyddio rhywfaint ar syniadau cerddorol ac yn dangos dealltwriaeth am ddyfeisiau a chonfensiynau, mewn perthynas â'r genre, yr arddull a'r traddodiad dewisedig.	Yn nodweddiadol bydd ymgeiswyr yn gallu: a) sôn am gerddoriaeth a glywir gan ddangos peth dealltwriaeth o'r genres, yr arddulliau a'r traddodiadau a astudiwyd.

Disgrifiadau perfformiad U2 ar gyfer Cerddoriaeth

	Amcan Asesu 1	Amcan Asesu 2	Amcan Asesu 3
Amcanion Asesu	Dylai ymgeiswyr allu: dehongli syniadau cerddorol gyda rheolaeth dechnegol a llawn mynegiant ynghyd ag ymdeimlad o arddull ac ymwybyddiaeth o'r achlysur a/neu ensemble.	Dylai ymgeiswyr allu: datblygu syniadau cerddorol gyda rheolaeth dechnegol yn llawn mynegiant gan ddefnyddio dyfeisiau a chonfensiynau mewn modd creadigol.	Dylai ymgeiswyr allu: arddangos dealltwriaeth am, agweddau adeileddol, mynegiant a chyd-destunol cerddoriaeth a sôn yn braff amdanynt.
A/B disgrifiadau perfformiadau ffiniol	Yn nodweddiadol bydd ymgeiswyr yn gallu: a) cyflwyno perfformiadau cerddorol sy'n argyhoeddi, yn llyfn, ac yn dangos dealltwriaeth gerddorol a dehongli personol.	Yn nodweddiadol bydd ymgeiswyr yn gallu: a) cynhyrchu cyfansoddiadau sy'n dangos y gallu i drafod syniadau cerddorol, gan ddefnyddio dyfeisiau a chonfensiynau cerddorol mewn perthynas â'r arddull, y genre a'r traddodiad dewisedig.	Yn nodweddiadol bydd ymgeiswyr yn gallu: a) cynnig a chyfiawnhau barn bersonol am gerddoriaeth a glywir, a dangos dealltwriaeth drylwyr o fewn y genres, yr arddulliau a'r traddodiadau a astudiwyd, gan greu cysylltiadau rhwng agweddau adeileddol, mynegiant a chyd-destunol cerddoriaeth.
E/U disgrifiadau perfformiadau ffiniol	Yn nodweddiadol bydd ymgeiswyr yn gallu: a) cyflwyno perfformiadau eitha llyfn sy'n dangos dealltwriaeth am gynllun, cyfeiriad ac o arddull y gerddoriaeth dewisedig.	Yn nodweddiadol bydd ymgeiswyr yn gallu: a) cynhyrchu cyfansoddiadau sy'n defnyddio syniadau cerddorol a dangos dealltwriaeth am ddyfeisiau a chonfensiynau, mewn perthynas â'r genre, yr arddull a'r traddodiad dewisedig.	Yn nodweddiadol bydd ymgeiswyr yn gallu: a) sôn yn fanwl am gerddoriaeth a glywir, gan ddangos dealltwriaeth am y genres, yr arddulliau a'r traddodiadau a astudiwyd.

8

CANLLAWIAU ASESU MEWNOL

MU2 and MU5 - Cyfansoddi

Gall cyfansoddiadau gael eu cyflwyno naill ai ar gaset, CD neu MD.

Rhaid i bob cyfansoddiad gael ei recordio, a'i gyflwyno gyda sgôr a fo'n briodol i'r nodiant.

Rhaid i recordiad heb sgôr draddodiadol gynnwys ffurflen â holl fanylion y broses gyfansoddi arni, gan ddangos yn gwbl eglur fwrriadau'r cyfansoddwr, manylion cerddorol y cyfansoddiad, a disgrifiad o'r arwyddion perfformio ar gyfer datganiad difyfyfyr o'r darn.

Mae'n ofynnol i bob cyfansoddiad gynnwys crynodeb o'r symbyliad gwreiddiol, a disgrifiad o'r broses o gyfansoddi a'r technegau cerddorol a ddefnyddiwyd. Darperir ffurflen briodol ar gyfer y wybodaeth hon gan CBAC.

Asesir y cyfansoddiadau ar gyfer MU2 yn fewnol gyda samplau o'r gwaith wedi'u hanfon at CBAC erbyn dyddiad penodol ym mis Mai i'w safoni'n allanol.

Asesir y cyfansoddiadau ar gyfer MU5 yn fewnol: mae'n ofynnol i gyflwyno'r holl gyfansoddiadau i'w marcio gan CBAC erbyn dyddiad penodol ym mis Mai.

Mae meini prawf asesu ar gyfer athrawon wedi'u hargraffu isod.

MU2 - Cyfansoddi

Marc	Dealltwriaeth am gydbwysedd, ffurf ac adeiledd	Datblygu syniadau cerddorol	Defnydd pwrpasol o leisiau, offerynnau a/neu seiniau wedi'u syntheseiddio	Rheolaeth dros y gwead	Dealltwriaeth am drefn bwrpasol yr harmoni	Cysondeb yr arddull
10-8	Dengys y cyfansoddiad ddealltwriaeth ardderchog am gydbwysedd, ffurf ac adeiledd.	Mae llawer o'r syniadau cerddorol wedi'u datblygu'n dda gan ddefnyddio ystod o dechnegau a dyfeisiau cerddorol a gafodd eu trin i sicrhau canlyniad sylweddol.	Dengys y dewis a'r defnydd o leisiau, offerynnau, a /neu seiniau wedi'u syntheseiddio sensitifrwydd. Arddull idomatig dda iawn drwy gydol y gwaith.	Dengys y cyfansoddiad greadigrwydd o ran ei reolaeth dros y gwead, ac ymdriniaeth a threfnyddiaeth ddychmygus o'r timbres.	Dengys y gwaith reolaeth dda dros iaith harmonig bwrpasol. Lle bo'n briodol, defnyddiwyd ystod eang o gordiau, gyda disgyblaeth effeithiol dros ddilyniannau cryf a thrawsgyweiriadau.	Dangosir ymwybyddiaeth gref o'r arddull, gyda chyflwyniad dychmygus o'r syniadau cerddorol.
7	Mae adeiledd y cyfansoddiad yn eglur a threfnus.	Mae rhai o'r syniadau cerddorol wedi'u datblygu'n dda gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau cyfansoddi.	Dengys y dewis a'r defnydd o leisiau, offerynnau, a /neu seiniau wedi'u syntheseiddio lawer o amrywiaeth, rheolaeth a dealltwriaeth.	Dengys y cyfansoddiad reolaeth glir dros y gwead, â defnydd meddylgar a threfnus o'r timbres.	Defnyddir harmoni sy'n briodol i'r arddull yn greffus. Lle bo'n briodol, defnyddiwyd amrywiaeth o gordiau, a gwnaethpwyd ymdrech deg i ddefnyddio dilyniannau a thrawsgyweiriadau.	Dangosir ymwybyddiaeth gyffredinol dda o'r arddull, gyda chyflwyniad meddylgar o'r syniadau cerddorol.
6	Mae gan y cyfansoddiad adeiledd canfyddadwy sy'n arddangos dealltwriaeth dderbyniol am gydbwysedd, ffurf ac adeiledd.	Ceir elfen o ddatblygiad oherwydd y driniaeth o'r syniadau cerddorol, gan ddefnyddio rhai technegau cyfansoddi.	Dengys y dewis a'r defnydd o leisiau, offerynnau, a /neu seiniau wedi'u syntheseiddio amrywiaeth dderbyniol.	Dengys y cyfansoddiad reolaeth dderbyniol, gan gynnwys ymdrech i amrywio'r gwead.	Dangosir peth dealltwriaeth am arddull harmonig bwrpasol. Lle bo'n briodol, gwnaethpwyd ymdrech i gynnwys dilyniannau diweddebol a thrawsgyweirio.	Dangosir ymwybyddiaeth dderbyniol o'r arddull, gyda chyflwyniad addas o'r syniadau cerddorol.
5	Dengys y cyfansoddiad beth tystiolaeth o ddealltwriaeth am adeiledd.	Ychydig iawn o ddatblygiad gan bod y syniadau cerddorol ar y cyfan yn syml ac yn ail-adroddus.	Mae'r dewis a'r defnydd o leisiau, offerynnau, a/neu seiniau wedi'u syntheseiddio yn addas er bod yr ensemble yn gyfyng yn ei amrywiaeth tonawl.	Mae peth rheolaeth dros y gwead i'w weld yn y cyfansoddiad hwn.	Cyfyng yw'r defnydd o gysyniadau harmonig pwrpasol. Dewis cordiau yn gyfyng ac yn ail-adroddus.	Dangosir peth ymwybyddiaeth o'r arddull.

4	Ni ddengys y cyfansoddiad ond y ddealltwriaeth fwyaf elfennol am adeiledd.	Mae'r syniadau cerddorol yn syml a heb gael eu datblygu.	Mae'r dewis a'r defnydd o leisiau, offerynnau, a/neu seiniau wedi'u syntheseiddio yn dangos ymwybyddiaeth elfennol yn unig. Dim ond dealltwriaeth gyfyng a ddangosir.	Ychydig iawn o ymwybyddiaeth o'r timbre a'r gwead a welir yn y cyfansoddiad.	Dim ond dealltwriaeth sylfaenol ac elfennol iawn o harmoni a ddangosir.	Ychydig o ymwybyddiaeth o'r arddull sydd i'w weld.
0-3	Mae'r cyfansoddiad yn brin o ddealltwriaeth am gytbwysedd, ffurf neu adeiledd.	Ychydig iawn o dystiolaeth o unrhyw ddatblygiad cerddorol.	Mae'r dewis a'r defnydd o leisiau, offerynnau, a/neu seiniau wedi'u syntheseiddio yn gyfyng iawn.	Nid oes tystiolaeth o reolaeth dros y gwead.	Mae'r cyfansoddiad yn arddangos dealltwriaeth wael am y cysyniadau harmonig	Canlyniad anghyson.

MU5 – Cyfansoddi

Marc	Dealltwriaeth am gydbwysedd, ffurf ac adeiledd	Datblygu syniadau cerddorol	Defnydd pwrpasol o leisiau, offerynnau a/neu seiniau wedi'u syntheseiddio	Rheolaeth dros y gwead	Dealltwriaeth am drefn bwrpasol yr harmoni	Cysondeb yr arddull
8-10	Mae gallu o'r radd flaenaf yn amlwg, a dengys y cyfansoddiad ddealltwriaeth ardderchog am gydbwysedd, ffurf ac adeiledd.	Mae syniadau cerddorol wedi'u datblygu'n ddychmygus gan ddefnyddio ystod o dechnegau a dyfeisiau cerddorol cymhleth wedi'u trin yn ddyfeisgar i sicrhau canlyniad sylweddol.	Mae ymwybyddiaeth eglur o liw wrth ddewis a defnyddio'r lleisiau, offerynnau, a/neu seiniau wedi'u syntheseiddio. Mae arddull idiomatig nodweddiadol yn amlwg drwyddi draw yn y cyfansoddiad, gyda chyflwyniad meddylgar a threfniadaeth y seiniau.	Dengys y cyfansoddiad greadigrwydd o ran ei reolaeth dros y gwead. Mae rheolaeth glir yn amlwg, sy'n ddychmygus ac yn bwrpasol yn ei pherthynas â'r cyfrwng dewisedig.	Dengys y gwaith reolaeth ardderchog dros iaith harmonig bwrpasol, sy'n gadarn ac yn ddiddorol. Lle bo'n briodol, defnyddiwyd ystod gymhleth o gordiau, gyda disgyblaeth effeithiol a chyflwyniad amrywiol o'r gwrthdroadau, dros ddilyniannau cryf a thrawsgyweiriadau.	Cyfansoddiad ysgogol, dychmygus a diddorol, gydag ymwybyddiaeth gref iawn o'r arddull.
7	Mae syniadau cerddorol y cyfansoddiad wedi'u trefnu'n dda o fewn fframwaith sy'n arddangos dealltwriaeth am gydbwysedd, ffurf ac adeiledd yn eglur.	Mae'r syniadau cerddorol wedi'u datblygu'n dda ar y cyfan gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau dyfeisiau cyfansoddi wedi'u trin i sicrhau canlyniad effeithiol.	Dengys y dewis a'r defnydd o leisiau, offerynnau, a/neu seiniau wedi'u syntheseiddio sensitifrwydd, lawer o amrywiaeth, rheolaeth a dealltwriaeth.	Dengys y cyfansoddiad reolaeth amlwg dros y gwead, wrth i'r syniadau cerddorol gael eu trefnu'n feddylgar ac yn amrywiol yn eu perthynas â'r cyfrwng dewisedig.	Trafodwyd yr harmoni sy'n addas i'r arddull ac i'r lefel gyda hyder. Lle bo'n briodol, defnyddiwyd amrywiaeth ddiddorol o gordiau, gyda dilyniannau da, a'r deunydd wedi'i gyflwyno mewn ystod o fformatau, ac ymdrech deg ar drawsgyweiriadau sy'n ddigon llyfn.	Cyfansoddiad cerddorol a diddorol, gyda chyflwyniad meddylgar o syniadau cerddorol sy'n arddangos ymwybyddiaeth gyffredinol dda o'r arddull.
6	Mae gan y cyfansoddiad adeiledd adnabyddadwy y mae cydbwysedd derbyniol o syniadau cerddorol o'i fewn wedi'u trefnu'n dda.	Mae na elfen o ddatblygiad oherwydd y driniaeth o rai syniadau cerddorol, gan ddefnyddio rhai technegau cyfansoddi.	Dengys y dewis a'r defnydd o leisiau, offerynnau, a/neu seiniau wedi'u syntheseiddio elfen o amrywiaeth, peth rheolaeth a dealltwriaeth resymol.	Mae'r cyfansoddiad yn dangos peth rheolaeth dros y gwead, gan gynnwys ymgais i amrywio'r drefnyddiaeth yn ei pherthynas â'r cyfrwng dewisedig.	Dengys y cyfansoddiad reolaeth dderbyniol a pheth dealltwriaeth dros arddull harmonig sy'n gymwys i'r lefel hon. Lle bo'n briodol, gwnaethpwyd ymdrech i gynnwys amrywiaeth o gordiau, dilyniannau diweddebol a pheth ymdrech at thrawsgyweirio a drawsgyweiriadau.	Cyfansoddiad derbyniol, gyda chyflwyniad llwyddiannus ar ei hyd o syniadau cerddorol sy'n arwain at ganlyniad a ddengys ymwybyddiaeth dderbyniol o'r arddull.

5	Cyflwynir y cyfansoddiad o fewn fframwaith sy'n dangos peth tystiolaeth o ddealltwriaeth am adeiledd a ffurf.	Yn gyffredinol tuedda'r syniadau cerddorol i fod yn syml ac yn ail-adroddus. Nid yw potensial y cyfansoddiad wedi'i wireddu'n ddigonol oherwydd diffyg yn amrywiaeth y datblygiad.	Mae'r dewis a'r defnydd o leisiau, offerynnau, a/neu seiniau wedi'u syntheseiddio yn addas er bod yr ensemble yn gyfyng yn ei amrywiaeth tonawl.	Cyfyng yw'r rheolaeth dros y gwead yn y cyfansoddiad hwn, heb ymgais ddigonol i amrywio trefniadaeth y syniadau yn ei pherthynas â'r cyfrwng dewisedig	Dengys y cyfansoddiad reolaeth a dealltwriaeth gyfyng dros y drefn harmonig bwrpasol. Mae'r dewis cordiau a phatrymau'n ail-adroddus, y dilyniannau'n dangos gwendidau ac ond ychydig iawn o ymdrech at newid cywair.	Dangosir peth ymwybyddiaeth o'r arddull, ond mae anghysonderau ac mae'r canlyniad cyfan yn ansylweddol.
4	Nid yw'r cyfansoddiad yn dangos ond dealltwriaeth elfennol am adeiledd, a threfn y syniadau yn flêr.	Mae'r syniadau cerddorol yn syml a heb gael eu datblygu.	Nid yw'r dewis a'r defnydd o leisiau, offerynnau, a/neu seiniau wedi'u syntheseiddio ond yn dangos ymwybyddiaeth sylfaenol.	Nid yw'r cyfansoddiad yn dangos ond ychydig o ymdrech i reoli ac i amrywio'r gwead.	Dealltwriaeth sylfaenol yn unig a welir gan nad yw'r harmoni'n argyhoeddi, gan ddefnyddio cordiau sy'n syml, triadaidd, ac yn brin o amrywiaeth a chyfeiriad.	Nid oes ond ychydig o ymwybyddiaeth o'r arddull, ac mae'r canlyniad yn anghyson.
0-3	Cyfansoddiad sy'n brin o adeiledd a threfn.	Does ond ychydig neu ddim tystiolaeth o ddatblygiad cerddorol.	Mae'r dewis a'r defnydd o leisiau, offerynnau, a /neu seiniau syntheseisyddedig yn gyfyng iawn yn ei amrywiaeth tonawl.	Does dim tystiolaeth o reolaeth dros y gwead.	Does dim tystiolaeth o ddealltwriaeth harmonig neu o unrhyw sylwedd.	Mae ymwybyddiaeth anaddas o'r arddull yn golygu canlyniad cwbl anghyson ac anargyhoeddiedig.

DILYSIAD

Mae bwysig bod asesiad mewnol yn cael ei fonitro'n drwyadl gan ganolfannau er mwyn sicrhau mai gwaith yr ymgeiswyr ei hunain ydyw. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ardystio gwreiddioldeb eu cyfansoddiad(au) a bydd canolfannau yn cydlofnodi iddynt wneud popeth sy'n rhesymol o fewn eu gallu i ddilysu hyn. Gellir cryfhau'r broses o ddilysu ymhellach drwy ganolbwyntio'n ofalus ar y pwyntiau canlynol:

* **Cydnabyddiaeth**

Rhaid cydnabod yn eglur y defnydd o gerddoriaeth sydd eisoes ar gael (e.e. alawon neu batrymau cordiau) drwy gynnwys y deunydd gwreiddiol gyda'r cyfansoddiad perthnasol.

* **Drafftio**

Mae'n iawn i athrawon gynnig arweiniad wrth ail-ddrafftio cyfansoddiadau ond cyfyngir y cynghorion hyn i sylwadau cyffredinol yn unig. Unwaith y cyflwynir y gwaith yn derfynol i'w farcio, yna ni fydd unrhyw adolygu pellach. Ni dderbynnir copïau glân o waith a farciwyd dan unrhyw amod. Mae'n ofynnol i bob drafft, pan fo hynny'n bwysig ar gyfer asesiad teg o'r cyfansoddiad gorffenedig, gael ei gyflwyno i'r aseswr allanol.

* **Llên-ladrad**

Dylai canolfannau fod ar eu gofal gan wrthod cynnwys unrhyw waith maent yn ei amau o fod yn annilys. Caiff ymgeiswyr eu cosbi am lôn-ladrata.

SAFONI

Er mwyn sicrhau safoni teg, mae'n angenrheidiol bod y safonwr yn ymwybodol wrth wneud yr asesiad terfynol, o'r prosesau a arweiniai at y cyfansoddiadau gorffenedig, a'r modd y defnyddiwyd y meini prawf.

Dylid anfon ffurflenni safoni'r sampl ynghyd â gwaith MU2 y disgyblion at y safonwr allanol erbyn dyddiad penodedig ym mis Mai. Mae cyfarwyddiadau ar gyfer dewis y sampl i'w cael yn *Llawlyfr Gwaith Cwrs/Asesiad Mewnol* (oddi wrth CBAC). Pan fo 10 ymgeisydd neu lai, mae'n ofynnol i ganolfannau anfon pob plygell.

Anfonir samplau ychwanegol o aseiniadau a aseswyd yn fewnol at y safonwr os bydd gofyn. Cedwir yr hawl gan CBAC i ofyn am holl aseiniadau unrhyw ganolfan os bydd angen gwneud hynny.

Mae'n ofynnol i holl gyfansoddiadau MU5 gael eu cyflwyno erbyn dyddiad penodol ym mis Mai a chael eu marcio gan CBAC.

ADRODDIAD

Bydd pob canolfan sy'n cyflwyno asesiadau mewnol o'r aseiniadau yn derbyn adroddiad gan y safonwr yn ystod tymor yr Hydref wedi'r arholiad.